Mawrth 2019

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Rheoli Gwastraff yng Nghymru – Atal Gwastraff

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Mae'r adroddiad yma wedi cael ei baratoi i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Sian Davies, Jeremy Morgan ac Andy Phillips o dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2019

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


Crynodeb 5

Argymhellion 11

1 Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun ar gyfer atal gwastraff, ond mae wedi canolbwyntio mwy o'i sylw a'i hadnoddau ar ailgylchu 13

Mae Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i ganolbwyntio ar gynyddu ailgylchu trefol, ond roedd gan atal gwastraff broffil is yn gyffredinol, serch rhai mentrau pwysig 14

Er bod y Rhaglen Atal Gwastraff yn adlewyrchu arferion cyffredin, mae cyfleoedd i ddysgu o ddulliau gweithredu mewn mannau eraill ac i wneud mwy o ddefnydd o ddeddfwriaeth a chymelliadau ariannol 17

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid sylweddol i gynghorau ar gyfer eu gwasanaethau rheoli gwastraff trefol, ond mae'r rhan fwyaf o hwn wedi'i wario ar gefnogi ailgylchu, gydag ychydig iawn ohono wedi ei wario ar atal gwastraff 23

Rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2018, rhoddodd Llywodraeth Cymru £13 miliwn i dri sefydliad dielw a oedd ag amcanion a oedd yn cynnwys, ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i, atal gwastraff 26

2 Mae’r data a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru i fesur perfformiad yn erbyn ei thargedau atal gwastraff uchelgeisiol o ansawdd amrywiol ac yn nodi cynnydd cymysg 30

Mae gan Lywodraeth Cymru ddata da ar wastraff trefol, ond ychydig iawn o ddata sydd ganddi ar y rhan fwyaf o’r mathau eraill o wastraff 31

Mae’r data sydd ar gael ar faint o wastraff a gynhyrchir yn nodi cynnydd cymysg o ran cyflawni targedau atal gwastraff uchelgeisiol Llywodraeth Cymru 35

Atodiadau 45

Atodiad 1 – Dulliau archwilio 46


Atodiad 2 – Prif elfennau Rhaglen Atal Gwastraff Llywodraeth Cymru a chynlluniau’r sector gwastraff 47

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae rheoli gwastraff yn fater pwysig a chymhleth sy'n ymdrin ag amrywiaeth o ddulliau gweithredu gwahanol ond perthnasol. Dengys Hierarchaeth Gwastraff yr Undeb Ewropeaidd (Ffigur 1) fod atal gwastraff rhag cael ei gynhyrchu, neu baratoi gwastraff i'w ailddefnyddio, yn cyflwyno buddion amgylcheddol llawer gwell nag ailgylchu, ac mae hyn yn ei dro yn cyflwyno buddion amgylcheddol llawer gwell na ffurfiau eraill o adferiad, fel ynni o wastraff. Ar waelod yr hierarchaeth, gyda'r lleiaf o fuddion amgylcheddol, yw gwaredu mewn modd nad yw'n adfer unrhyw ynni.

Ffigur 1: yr hierarchaeth wastraff




Ffynhonnell: Cyfarwyddeb 2008/98/EC ar wastraff (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff)[1]

2 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar atal gwastraff (Blwch 1). Mae'n ffurfio un rhan o set o dri darn perthnasol ar reoli gwastraff yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r ddau ddarn arall o waith wedi ystyried materion sy'n ymwneud ag ailgylchu trefol a chaffaeliad capasiti trin gwastraff gweddilliol a gwastraff bwyd.

1 Cafodd y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff gyntaf [75/442/EEC] ei diwygio yn 1991 drwy Gyfarwyddeb [91/692/EEC] ac eto yn 2008 drwy'r Gyfarwyddeb Wastraff [2008/98/EC], a gafodd ei diwygio ei hun yn 2018 drwy'r Gyfarwyddeb Wastraff (UE) 2018/851. Ar wahân i'r Cyfarwyddebau hyn, mae'r 'Gyfarwyddeb Tirlenwi' [1999/31/EC] yn rheoleiddio'r gwaith o reoli gwastraff safleoedd tirlenwi yn yr Undeb Ewropeaidd.

## Blwch 1: diffiniad yr Undeb Ewropeaidd o atal gwastraff o Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff 2008

Mesurau a gymerwyd cyn i sylwedd, deunydd neu gynnyrch ddod yn wastraff, sy'n lleihau:



Maint y gwastraff, gan gynnwys drwy ailddefnyddio cynhyrchion neu ehangu hyd oes cynhyrchion.



Effeithiau niweidiol gwastraff a gynhyrchir ar yr amgylchedd ac ar iechyd dynol.



Cynnwys sylweddau niweidiol mewn deunyddiau a chynhyrchion.

3 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi 'economi gylchol'[2], sy'n seiliedig ar yr egwyddor y gallai effeithlonrwydd gwell o ran adnoddau gyfrannu at fuddion ariannol mawr a buddion eraill. Cred Llywodraeth Cymru fod yr economi gylchol yn alinio â'r nodau llesiant a nodwyd o dan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** ac â'i strategaeth, **Tuag at Ddyfodol Diwastraff**, (Ffigur 2). Mae atal gwastraff yn rhan bwysig o ddull Llywodraeth Cymru o fod yn effeithlon o ran adnoddau. Mae adolygiad academaidd diweddar wedi awgrymu bod y dulliau polisi cyffredinol y mae Llywodraeth Cymru wedi eu mabwysiadu wrth geisio dod yn economi gylchol wedi eu datblygu'n well yng Nghymru na mewn rhannau eraill o'r DU, ar sail y meini prawf a ddefnyddiwyd drwy'r gwaith ymchwil[3].

4 Mae rhoi'r pwyslais ar atal hefyd yn un o'r pum ffordd o weithio sy'n ategu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'i nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Atal gwastraff yw'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau ôl-troed ecolegol[4] gwastraff. Ôl-troed ecolegol Cymru yw un o'r 46 o ddangosyddion cenedlaethol ar gyfer llesiant o dan y Ddeddf.

2 Mewn economi gylchol, parheir i ddefnyddio adnoddau am gyn hired â phosibl, ceisir cael y gwerth mwyaf oddi wrthynt tra eu bod yn cael eu defnyddio, ac yna, ar ddiwedd eu hoes, caiff y deunyddiau eu hadfer a'u hailgynhyrchu.

3 Anne P. M. Velenturf, Phil Purnell, Mike Tregent, John Ferguson ac Alan Holmes, **Co-Producing a Vision and Approach for the Transition towards a Circular Economy: Perspectives from Government Partners**, Sustainability 10(5), 1401, Mai 2018.

4 Mae olrhain ôl-traed ecolegol yn dangos cyfanswm y baich amgylcheddol y mae cymdeithas yn ei roi ar y blaned, ac mae'n cynrychioli'r darn o dir sydd ei angen i ddarparu deunyddiau crai, ynni a bwyd, yn ogystal ag amsugno'r llygredd a'r gwastraff a grëwyd.

Ffigur 2: y nodau a'r canlyniadau y gobeithir a ddaw yn sgil Tuag at Ddyfodol Diwastraff


| Nod | Canlyniad |
|---|---|
| **Amgylchedd Cynaliadwy** | Amgylchedd Cynaliadwy, lle bydd effaith gwastraff yng Nghymru'n cael ei lleihau i lefel sydd o fewn ein terfynau amgylcheddol erbyn 2050. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gweithredu i leihau ôl troed ecolegol gwastraff yng Nghymru i lefelau 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' drwy atal ac ailgylchu gwastraff, fel ein bod yn cyfrannu at ddefnyddio ein cyfran deg yn unig o adnoddau'r ddaear. |
| **Cymdeithas Ffyniannus** | Cymdeithas Ffyniannus, gydag economi gynaliadwy, effeithlon. Bydd mwy o 'swyddi gwyrdd' yn cael eu darparu ar draws gwahanol lefelau sgiliau o fewn y diwydiant rheoli gwastraff ac adnoddau yng Nghymru, a bydd cynnydd yn elw busnesau drwy arferion effeithlon, a ddiogelir yn y dyfodol yn erbyn cystadleuaeth gynyddol am adnoddau. |
| **Cymdeithas Deg a Chyfiawn** | Cymdeithas Deg a Chyfiawn, lle gall pob dinesydd gyflawni eu llawn botensial a chyfrannu at les Cymru drwy weithredu i atal, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff. |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, **Tuag at Ddyfodol Diwastraff, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned**, Mehefin 2010

5 Mae gan Tuag at Ddyfodol Diwastraff yr uchelgais ganlynol: 'Erbyn 2050 byddwn yn lleihau effaith gwastraff yng Nghymru nes ei bod o fewn ein terfynau amgylcheddol (a ddiffiniwn fel lefelau gwastraff Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, sef 65% yn llai o wastraff nag a gynhyrchwn yn awr, yn fras), gan anelu at gael gwared â gwastraff gweddilliol yn raddol trwy gamau cryfach i atal gwastraff a defnyddio a chynhyrchu'n gynaliadwy fel bod yr unig wastraff a gynhyrchir yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu.' Mae gan y strategaeth gwmpas uchelgeisiol, sy'n ymdrin â'r holl wastraff sy'n deillio o gartrefi a ffynonellau nad ydynt yn gartrefi. Mae ffynonellau nad ydynt yn gartrefi yn cynnwys gwastraff masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel.

6 Mae cyfres o gynlluniau sector, polisïau cynllunio a nodiadau cyngor technegol yn cefnogi Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Mae rhaglen Atal Gwastraff Cymru[5] (‘y Rhaglen’) hefyd yn cefnogi’r strategaeth, drwy ddisgrifio’r polisïau, targedau, rhaglenni gwaith a’r canlyniadau disgwyliedig ar gyfer atal gwastraff[6]. Gyda’i gilydd, mae’r gyfres hon o ddogfennau’n llunio’r Cynllun Rheoli Gwastraff statudol ar gyfer Cymru. Mae Atodiad 2 yn amlinellu’r prif amcanion a meysydd gweithredu ar gyfer y Rhaglen a’r cynllun ar gyfer pob sector gwastraff.

7 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai Cymru yw un o’r unig wledydd ledled y byd i osod targedau atal gwastraff, ond nid yw’r targedau hyn yn statudol. Roedd y targedau allweddol yn y Rhaglen Atal Gwastraff wedi eu nodi eisoes yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Maent yn seiliedig ar ganran flynyddol o ostyngiad mewn gwastraff a fydd yn cael ei chyflawni hyd at 2050 – heb ystyried tueddiadau poblogaeth nac economaidd – ac wedi eu gosod yn erbyn llinellau sylfaen 2006-07.




5 Llywodraeth Cymru, **Tuag at Ddyfodol Diwastraff Cymru’n Un: Cenedl Un Blaned, y Rhaglen Atal Gwastraff i Gymru**, Rhagfyr 2013.

6 Gwnaeth **Erthyglau 11 a 29 i 33 Cyfarwyddiaeth Fframwaith Gwastraff** yr Undeb Ewropeaidd ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau sefydlu rhaglenni atal gwastraff erbyn 12 Rhagfyr 2013. Ym mis Rhagfyr 2012, lluniodd y Comisiwn Ewropeaidd ganllawiau i aelod-wladwriaethau ar **Baratoi Rhaglen Atal Gwastraff**. Asiantaeth yr Amgylchedd Ewropeaidd sy’n rheoleiddio’r gydymffurfiaeth â’r Gyfarwyddeb.

8 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r **Adroddiad Cynnydd ar Tuag at Ddyfodol Diwastraff** (Adroddiad cynnydd 2015) ym mis Gorffennaf 2015 er mwyn adrodd ar y cynnydd o ran cyflawni'r strategaeth wastraff genedlaethol[7]. Yn fwy penodol, gwnaeth Llywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi adroddiad cryno ym mis Gorffennaf 2017 a oedd yn cynnwys adolygiad o gynnydd camau gweithredu ar gyfer atal gwastraff[8].

9 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori nawr ar ddiweddariad o Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn ystod 2019. Cyn yr adolygiad hwnnw, mae wedi comisiynu gwerthusiad o'r cynllun gwastraff statudol i Gymru, gan gynnwys ei fuddion economaidd, yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU strategaeth adnoddau a gwastraff ddiwygiedig ar gyfer Lloegr[9]. Er bod y strategaeth yn canolbwyntio ar Loegr yn bennaf, mae'n cynnwys rhai cynigion ar gyfer mesurau ledled y DU ar wastraff, gyda chytundeb y gweinyddiaethau datganoledig a chydag ymgynghoriad pellach parhaus ar fesurau penodol.

10 Mae ein hadroddiad yn ystyried lefel y flaenoriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei rhoi i atal gwastraff, gan gynnwys cymorth a chyfleoedd ariannu penodol, er mwyn defnyddio ysgogiadau deddfwriaethol ac ariannol. Mae hefyd yn ystyried a yw Llywodraeth Cymru yn cadw ar y trywydd cywir gyda'i thargedau atal gwastraff, ac ansawdd y data sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i fesur cynnydd. Rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygiadau ers cyhoeddi'r Rhaglen Atal Gwastraff ym mis Rhagfyr 2013, ond rydym wedi ystyried data blaenorol pan fydd hwn yn dangos tueddiadau ehangach. Nid ydym wedi ceisio gwerthuso gwerth am arian y gweithgareddau atal gwastraff penodol sy'n ffurfio'r Rhaglen Atal Gwastraff na gwerth y rhai hynny a nodwyd yng nghynlluniau sector Llywodraeth Cymru. Mae Atodiad 1 yn nodi ein dulliau archwilio.

11 **Er bod gan Lywodraeth Cymru gynllun ar gyfer atal gwastraff, canfuom yn gyffredinol ei bod wedi canolbwyntio mwy o'i sylw a'i hadnoddau ar ailgylchu. Mae'r data a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru i fesur perfformiad yn erbyn targedau atal gwastraff o ansawdd amrywiol ac yn nodi cynnydd cymysg.**

7 Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn gofyn am werthusiad o strategaethau gwastraff bob chwe blynedd. Er nad yw wedi ei gyhoeddi eto, mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r gwerthusiad hwn bellach.

8 Llywodraeth Cymru, **Cynllun Sector Gwastraff Tuag at Ddyfodol Diwastraff a Chamau Gweithredu'r Rhaglen Atal Gwastraff: Adroddiad Cryno Mehefin 2010-Mawrth 2016**, Gorffennaf 2017.

9 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac Asiantaeth yr Amgylchedd, **Our waste, our resources: a strategy for England**, Rhagfyr 2018.

12 Mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio'n llwyddiannus ar gynyddu ailgylchu trefol. Mae atal gwastraff wedi cael proffil is yn gyffredinol, serch rhai mentrau pwysig ar atal gwastraff bwyd, er enghraifft. Er bod Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei rhaglen atal gwastraff ei hun, sy'n adlewyrchu arferion cyffredin, nid oes llawer o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar faint o wastraff a gynhyrchir yn bethau y gall Llywodraeth Cymru eu rheoli'n uniongyrchol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddysgu o ddulliau gweithredu mannau eraill ac i wneud mwy o ddefnydd o ddeddfwriaeth a chymhelliannau ariannol. Mae un o'r cyfleoedd y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn ymwneud ag ehangu cyfrifoldebau cynhyrchwyr ar gyfer gwastraff[10].

13 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid sylweddol i gynghorau ar gyfer eu gwasanaethau rheoli gwastraff trefol, ond mae'r rhan fwyaf o hwn wedi'i wario ar gefnogi ailgylchu, gydag ychydig iawn ohono wedi ei wario ar atal gwastraff. Yn 2016-17 er enghraifft, gwariodd cynghorau o leiaf £60 miliwn o'r £64.3 miliwn a ddyrannwyd iddynt yn y Grant Refeniw Sengl ar weithgareddau a oedd yn ymwneud yn bennaf â chynyddu ailgylchu.

14 Rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2018, rhoddodd Llywodraeth Cymru £13 miliwn i dri sefydliad dielw a oedd ag amcanion a oedd yn cynnwys, ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i, atal gwastraff. Dyfarnodd Llywodraeth Cymru y rhan fwyaf o'r cyllid hwn – £11.2 miliwn – i Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau, gan adeiladu ar gyllid grant blaenorol. Mae tystiolaeth ar gael i ddangos effeithiau cadarnhaol o'r cyllid grant hwn. Nid oes modd dadgyfuno gwariant neu ganlyniadau atal gwastraff o waith ehangach y sefydliadau hyn y mae cyllid Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi bob amser, sydd hefyd yn gallu cyflawni buddion economaidd-gymdeithasol eraill.

15 Mae gan Lywodraeth Cymru ddata da ar swm, mathau a chyrchfan gwastraff trefol o'r system WasteDataFlow. Nid oes gan Lywodraeth Cymru ddata cyfredol ar faint o wastraff masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel sy'n cael ei gynhyrchu. Caiff arolygon i gefnogi'r amcangyfrifon ar gyfer y gwastraff hwn eu cynnal yn gyfnodol ac maent yn ddrud. Cynhaliwyd y rownd arolygu ddiwethaf yn 2012, ond bwriedir casglu mwy o ddata. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â gwaith prosiect ehangach i archwilio'r potensial ar gyfer un system casglu data sengl ar wastraff ledled y DU.

10 Mae ehangu cyfrifoldebau cynhyrchwyr yn gwneud gwneuthurwyr yn gyfrifol am y cynnyrch y maent yn eu gwneud neu'n eu gwerthu, ac am unrhyw ddeunydd pacio cysylltiedig, pan fyddant yn troi'n wastraff. Golyga hyn fod cynhyrchwyr yn helpu i dalu am y gost o gasglu, cludo, ailgylchu a chael gwared ar y cynhyrchion a'r deunyddiau hyn mewn modd cyfrifol ar ddiwedd eu hoes.

16 Mae targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer atal gwastraff yn uchelgeisiol, ond gyda'r cynnydd yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, mae'n anodd nodi llinellau atebolrwydd eglur. Mae swm y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu mewn cartrefi wedi lleihau yn unol â tharged Llywodraeth Cymru ers 2006-07, ond gwelwyd ychydig o amrywiad yn y blynyddoedd diwethaf. Mae ein gwaith ar wahân ar gaffael capasiti trin gwastraff gweddilliol a gwastraff bwyd wedi nodi fod amcanestyniadau a ddefnyddiwyd fel sylfaen i gontractau tri phrosiect mawr ar wastraff gweddilliol yn rhagdybio y bydd angen i gynghorau barhau i drin swm sylweddol o wastraff gweddilliol ar ôl 2040. Nid yw'r amcanestyniadau hynny'n alinio'n dda gyda dyhead cyffredinol Llywodraeth Cymru i gael sero gwastraff gweddilliol erbyn 2050.

17 Pan adroddwyd ar hyn ddiwethaf yn 2012, nid oedd unrhyw gynnydd wedi ei wneud i leihau maint y gwastraff masnachol a diwydiannol, ac roedd y dirywiad economaidd yn chwarae rhan arwyddocaol yn y gostyngiad mawr mewn gwastraff adeiladu a dymchwel. Bydd angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i ddatgysylltu'r gwastraff a gynhyrchir o weithgarwch economaidd os yw'n mynd i gyflawni ei thargedau atal gwastraff yn y dyfodol.

## Argymhellion

### Argymhellion

**A1 Cynyddu'r pwyslais ar atal gwastraff er mwyn adlewyrchu amcanion cyffredinol Tuag at Ddyfodol Diwastraff**

Awgryma'r data sydd ar gael ar faint o wastraff a gynhyrchir bod cynnydd cymysg o ran cyflawni targedau atal gwastraff Llywodraeth Cymru. **Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:**

**a) ailedrych ar y flaenoriaeth berthnasol y mae'n ei rhoi i ailgylchu ac atal gwastraff fel rhan o'i hadolygiad o Tuag at Ddyfodol Diwastraff;**

**b) gosod y disgwyliadau ar wahanol sefydliadau a sectorau ar gyfer atal gwastraff yn eglur; ac**

**c) ailedrych ar ei thargedau atal gwastraff cyffredinol a'r ffordd y mae wedi mynd ati i'w monitro, gan ystyried y cynnydd hyd yn hyn, enghreifftiau o wledydd eraill ac yng nghyd-destun yr amcanestyniadau cyfredol am wastraff a fydd yn cael ei gynhyrchu hyd at 2050.**

| Argymhellion | |
|---|---|
| **A2** | **Gwella data ar wastraff masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel**<br>Mae Llywodraeth Cymru yn bartner mewn gwaith cychwynnol i asesu dichonoldeb datblygu datrysiad digidol newydd i olrhain yr holl wastraff. **Os na fydd yr opsiwn dewisol hwn yn llwyddo, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i archwilio costau a buddion opsiynau eraill i wella'r data ar wastraff nad yw'n drefol yng Nghymru, gan gynnwys pwerau ychwanegol i ofyn am ddata gwastraff gan fusnesau.** |
| **A3** | **Gwella cyfrifoldeb cynhyrchwyr a defnyddio ysgogiadau mwy cyfreithiol, ariannol a chyllidol**<br>Mae gan Lywodraeth Cymru gyfleoedd i ddylanwadu ar atal gwastraff drwy ddeddfwriaeth a chymelliadau ariannol. Gall hefyd ddylanwadu ar newidiadau ar lefel y DU, lle nad yw materion cyllidol wedi eu datganoli. **Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen darpariaethau i ehangu cyfrifoldebau cynhyrchwyr ac oes angen defnyddio pwerau ariannol fel amodau grant, mesurau cyllidol a thaliadau a chymelliadau cwsmeriaid i hyrwyddo a blaenoriaethu'r gwaith o atal gwastraff.** |

Rhan 1

# Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun ar gyfer atal gwastraff, ond mae wedi canolbwyntio mwy o'i sylw a'i hadnoddau ar ailgylchu



1.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn archwilio'r flaenoriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei rhoi i atal gwastraff rhag cael ei gynhyrchu. Mae'n ystyried sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i atal gwastraff a manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio deddfwriaeth a chymelliadau ariannol i gefnogi'r gwaith hwn. Yn olaf, rydym yn ystyried sut mae Llywodraeth Cymru yn ariannu sefydliadau i gyflawni mentrau atal gwastraff a thystiolaeth o effaith yr arian hwn.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i ganolbwyntio ar gynyddu ailgylchu trefol, ond roedd gan atal gwastraff broffil is yn gyffredinol, serch rhai mentrau pwysig

1.2 Mae'r strategaeth genedlaethol wedi canolbwyntio ar reoli gwastraff mewn modd cynaliadwy ers 2001-02, ac mae atal gwastraff yn ganlyniad allweddol yr anelir ato yn y strategaeth gyfredol Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Er mwyn cyflawni'r dyheadau cyffredinol o gael sero gwastraff yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, bydd angen canolbwyntio ar ailgylchu ac atal gwastraff. Yn ein hadroddiad yn 2012 ar **Cyfranogiad y Cyhoedd o ran Ailgylchu Gwastraff**[11], nodwyd gennym fod camau gweithredu arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer atal gwastraff yn parhau i fod yn aneglur, yn yr un modd â chyfraniad pob un tuag at ganlyniadau dymunol Llywodraeth Cymru.

1.3 Ers cyhoeddi Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn 2010, a'n hadroddiad blaenorol yn 2012, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Rhaglen Atal Gwastraff. Mae angen i fesurau atal gwastraff ymdrin â'r ffordd y defnyddir pob deunydd, o'r echdynnu a gweithgynhyrchu i'r pwynt bwyta a gwaredu. Mae angen i atal gwastraff felly fod yn gyfrifoldeb trawsbynciol ar draws Llywodraeth Cymru, yn hytrach na'n gyfrifoldeb i swyddogion rheoli gwastraff yn unig. Nid yw'r Rhaglen Lywodraethu[12] gyfredol yn sôn yn benodol am atal gwastraff. Fodd bynnag, mae'n blaenoriaethu gosod map llwybr ar gyfer economi mwy effeithlon a lleihau effeithiau amgylcheddol cynhyrchu a defnyddio.

11 Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Cyfranogiad y Cyhoedd o ran Ailgylchu Gwastraff**, Chwefror 2012.

12 Llywodraeth Cymru, **Symud Cymru Ymlaen: Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol**, Medi 2017.

1.4 Canfuom fod adrannau eraill o Lywodraeth Cymru wedi dechrau ymhél mwy â materion rheoli gwastraff. Er enghraifft, mae'r pwyslais ar economi gylchol wedi cyflwyno mwy o gyfleoedd i dîm strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru weithio gyda swyddogion economi a sgiliau ar ddatblygu a gweithredu polisïau. Gwelwyd ymgysylltu hefyd â thîm arloesedd Llywodraeth Cymru, sy'n darparu cymorth i fusnesau sy'n ceisio gwella eu cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau. Gall y cymorth hwn gynnwys mesurau i leihau gwastraff, fel hyrwyddo a datblygu cynhyrchion â mwy o hirhoedledd. Mae 'Contract Economaidd' newydd Llywodraeth Cymru yn nodi ei ddisgwyliad y bydd busnes yn gwneud cyfraniad sy'n cyd-fynd â'i hamcanion ehangach yn gyfnewid am gymorth ariannol, gan gynnwys datgarboneiddio[13]. Mae enghreifftiau eraill a amlygwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys gweithio gydag arweinwyr polisi caffael a bwyd i ymwreiddio effeithlonrwydd adnoddau (gan gynnwys atal gwastraff) mewn arferion a rhaglenni prif ffrwd[14].

1.5 Serch hyn, nododd yr adborth a dderbyniwyd gennym gan sefydliadau rhanddeiliaid amrywiol eu bod yn credu mai'r targedau ailgylchu oedd prif flaenoriaeth polisi gwastraff Llywodraeth Cymru. Nid oedd nifer o'r rhanddeiliaid hyn yn ymwybodol chwaith o'r camau gweithredu o fewn y Rhaglen Atal Gwastraff, felly nid oeddent wedi rhoi blaenoriaeth iddynt.

1.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i gyflawni cynnydd sylweddol yng nghyfradd yr ailgylchu trefol, o 8.4% yn 2001-02 i 63.8% yn 2016-17. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad diweddar ar ailgylchu trefol, mae'r gyfradd ailgylchu yng Nghymru uwchlaw'r gyfradd a gofnodwyd yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac mae'n cymharu'n ffafriol â gwledydd yn yr Undeb Ewropeaidd a chyda cyfraddau ailgylchu bras mewn mannau eraill o'r byd. Mae posibilrwydd y gallai cyfraddau ailgylchu leihau os bydd atal gwastraff yn canolbwyntio'n anghymesur ar ddeunyddiau a fyddai fel arall wedi dod yn wastraff ac wedi'u hailgylchu, yn hytrach na lleihau pob math o wastraff i'r un graddau. Gallai gostyngiad ym maint y gwastraff sydd ar gael i'w ailgylchu hefyd gael effaith negyddol ar yr incwm mae cynghorau'n ei ennill o'i werthu.

13 Darparodd adroddiad Tachwedd 2018 yr Archwilydd Cyffredinol ar **Gymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau** ragor o fanylion ynghylch y Contract Economaidd newydd a Chynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru.

14 Gan gynnwys yr Adduned Twf Gwyrdd sy'n rhan o'r cymorth cynaliadwyedd sydd ar gael i fentrau bach a chanolig yng Nghymru drwy Busnes Cymru.

1.7 Fodd bynnag, gallai gwella cyfleusterau a mesurau ailgylchu (fel gwahanu gwastraff) gael effaith atal gwastraff drwy wneud unigolion yn fwy ymwybodol o'r gwastraff y maent yn ei gynhyrchu. Gallai hefyd leihau cost gwasanaethau gwastraff trefol.

1.8 Mae cynyddu cyfraddau ailgylchu trefol wedi bod yn broses gymharol syml o'i chymharu â lleihau'r symiau cyffredinol o'r gwastraff hwn a gynhyrchir, oherwydd mae gan Lywodraeth Cymru bolisi ac ysgogiadau ariannol sydd wedi'u defnyddio i arwain cynghorau at annog ailgylchu. Mae gwneud cynnydd gydag atal gwastraff yn fwy cymhleth. Mae maint y gwastraff a gynhyrchir gan gartrefi yn cael ei effeithio gan ffactorau amrywiol, gan gynnwys cyfoeth, ymddygiad y cwsmer, newidiadau cynnyrch a phrisio cynnyrch, ac nid yw pob un o'r rhain yn faterion y gall Llywodraeth Cymru eu rheoli'n uniongyrchol. Yn yr un modd, mae maint y gwastraff masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel sy'n cael ei gynhyrchu yn dibynnu ar ffactorau amrywiol, gan gynnwys cyflwr yr economi.

1.9 Er y gallai fod wedi ymddangos mai ailgylchu oedd blaenoriaeth y polisi, mae amrediad o fentrau wedi canolbwyntio ar atal gwastraff. Er enghraifft, mae atal gwastraff bwyd wedi cael proffil cyhoeddus penodol drwy ymgyrch Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau, Hoffi Bwyd, Casáu[15] Gwastraff. Yn ôl dadansoddiad gan Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau yn 2017, amcangyfrifwyd, ar sail dadansoddiad cyfansoddol, fod gostyngiad o 11% wedi bod mewn gwastraff bwyd cartrefi y gellid ei osgoi yng Nghymru rhwng 2009 a 2015[16]. Mae atal gwastraff bwyd wedi bod yn faes o bwys i gytundebau gwirfoddol ledled y DU hefyd, gan gynnwys amrywiaeth o sectorau diwydiannol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi. Mae 'Ymrwymiad Courtauld 2025' yn dod â sefydliadau ledled system fwyd y DU ynghyd nawr mewn ymdrech i gael gostyngiad o 20% mewn gwastraff bwyd erbyn 2025[17].

15 Ymgyrch atal gwastraff a gyflwynir ledled y DU gan Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau yw Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff. Nod yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth o'r angen i leihau gwastraff bwyd drwy wneud rhai pethau hawdd, ymarferol bob dydd yn y cartref. Mae atal gwastraff bwyd yn arbed arian ac o fudd i'r amgylchedd.

16 Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau, **Gwastraff Bwyd Cartrefi yng Nghymru, 2015**, Ionawr 2017.

17 Mae Ymrwymiad Courtauld 2025 yn cefnogi cyfraniad y DU tuag at y nodau datblygu cynaliadwy a osodwyd gan y Cenhedloedd Unedig i haneri'r gwastraff bwyd byd-eang y pen o'r boblogaeth ar lefelau manwerthu a chwsmeriaid ac i leihau colledion bwyd ar hyd cadwynau cynhyrchu a chyflenwi (gan gynnwys colledion ar ôl cynaeafau) erbyn 2030.

## Er bod y Rhaglen Atal Gwastraff yn adlewyrchu arferion cyffredin, mae cyfleoedd i ddysgu o ddulliau gweithredu mewn mannau eraill ac i wneud mwy o ddefnydd o ddeddfwriaeth a chymelliadau ariannol

1.10 Cyhoeddodd llywodraeth y DU y Rhaglen Atal Gwastraff ar gyfer Lloegr[18] ar ddiwedd 2013. Mae tebygrwydd rhwng hon â'r Rhaglen Atal Gwastraff ar gyfer Cymru, gan fod y ddwy ddogfen yn dilyn yr un templed gan yr Undeb Ewropeaidd. Er enghraifft, mae'r ddwy raglen yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o wastraff a hyrwyddo gwastraff; darparu cyllid ar gyfer Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau a symud i ffwrdd o ddeddfwriaeth a defnyddio cosbau ariannol[19]. Fodd bynnag, yn wahanol i gynllun Cymru, nid yw'r Cynllun Atal Gwastraff ar gyfer Lloegr yn gosod targed cyffredinol ar gyfer lleihau gwastraff. Mae'r cynllun ar gyfer Lloegr yn nodi y bydd yn asesu'r cynnydd drwy fonitro faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu ym mhob cartref, a fesul uned o Werth Ychwanegol Gros[20].

1.11 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio defnyddio mesur o gynhyrchiad gwastraff diwydiannol a masnachol yn erbyn gwerth ychwanegol gros fel dangosydd cynnydd strategol, ac yn benodol, i hybu'r gwaith o ddatgysylltu'r gwastraff a gynhyrchir o dwf economaidd. Wrth asesu effeithlonrwydd Cynllun Gwastraff Cymru[21], mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried gwerth ychwanegol gros y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy i gynghorau rhwng 2001-02 a 2014-2015. Cafodd y rhan fwyaf o'r arian grant ei wario ar weithgareddau ailgylchu (paragraffau 1.30 i 1.36).

1.12 Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei chynllun atal gwastraff yn 2013 hefyd, gan osod targed eang i leihau'r swm cyffredinol o wastraff a gynhyrchir o 7% erbyn 2017, yn erbyn llinell sylfaen 2011[22]. Yr ail darged yw lleihau'r swm cyffredinol o wastraff a gynhyrchir o 15%, erbyn 2025. Mae strategaeth yr Alban yn ymrwymo hefyd i fonitro llwyddiant y rhaglen yn erbyn cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir fesul sector, swm y gwastraff a gynhyrchir gan bob sector fesul uned o werth ychwanegol gros, ac effaith garbon gwastraff.

18 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, **The Waste Prevention Programme for England**, Rhagfyr 2013.

19 Nid oedd gan Lywodraeth Cymru bwerau codi trethu pan gyhoeddwyd Cynllun Atal y Rhaglen Atal Gwastraff yn 2013.

20 Mae Gwerth Ychwanegol Gros yn darparu gwerth ariannol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir, minws cost pob mewnbwn a defnydd crai y gellir ei briodoli i'r cynhyrchiad hwnnw.

21 Llywodraeth Cymru, Adolygiad o Gynllun Gwastraff Cymru – **Gwerthusiad CGC ffrwd waith 1 – Cyflawni'r Amcanion a Gwireddu'r Manteision**, Mehefin 2017.

22 Llywodraeth yr Alban, **Safeguarding Scotland's Resources**, Hydref 2013.

1.13 Yn 2016, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban darged hefyd i gael 33% o ostyngiad mewn gwastraff bwyd erbyn 2025 (Blwch 2). Ym mis Awst 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn ystyried cyflwyno targed i haneru'r gwastraff bwyd yng Nghymru erbyn 2025, o linell sylfaen 2006-07. Mae Llywodraeth Cymru wedi sylweddoli y bydd profiad yr Alban yn ddefnyddiol i lywio ei hymateb i'r targed arfaethedig ar gyfer Cymru.

Blwch 2: Strategaeth Economi Gylchol Llywodraeth yr Alban

**Making Things Last – A Circular Economy Strategy for Scotland**, cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016. Mae hon yn cysylltu â Strategaeth Economaidd yr Alban a'i Chynllun Gwastraff. Mae'r strategaeth yn blaenoriaethu camau gweithredu mewn meysydd y mae'r Alban mewn sefyllfa i wneud cynnydd cyflym ynddynt, fel ail-weithgynhyrchu. Mae hefyd yn blaenoriaethu meysydd lle mae cyfleoedd i gyflawni'r buddion mwyaf, fel yn y sectorau bwyd a bio-economi, seilwaith ynni ac adeiladu.



Mae strategaeth yr Alban hefyd yn cynnwys targed i gael gostyngiad o 33% mewn gwastraff bwyd erbyn 2025, ac i weithio gyda'r diwydiant i leihau colledion o ran cynnyrch y gellir ei fwyta ar ffermydd. Hwn oedd y targed cyntaf o'i fath i gael ei gosod yn Ewrop. Mae'r strategaeth hefyd yn hybu ffordd newydd o ymdrin â chyfrifoldeb cynhyrchwyr, drwy fframwaith sengl ar gyfer pob math o gynnyrch sy'n llywio dewisiadau ar gyfer ailddefnyddio, trwsio neu ail-weithgynhyrchu.

1.14 Mae mesurau eraill y gallai Llywodraeth Cymru eu hystyried i olrhain cynnydd. Er enghraifft, awgrymodd llywodraeth yr Almaen yn ei rhaglen atal gwastraff y gellid defnyddio 'dangosydd dwysedd gwastraff' i asesu faint o wastraff a oedd yn cael ei gynhyrchu gan sectorau unigol o ran eu hallbwn net a nifer y cyflogeion. Gallai dangosydd o'r fath ddangos pa sectorau sy'n cynhyrchu'r symiau mwyaf o wastraff wrth gynhyrchu eu nwyddau a gwasanaethau.

1.15 Gall llywodraethau geisio lleihau gwastraff mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys trwy ddeddfwriaeth a rheoleiddio, cymelliadau cyllidol fel seibiannau o dalu trethu neu grantiau, yn ogystal â dulliau ysgafnach fel codi ymwybyddiaeth a gweithgareddau hyrwyddo. Mae cyfarwyddebau amrywiol gan yr Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â gwastraff wedi'u trawsosod i ddeddfwriaeth yn y DU, gan gynnwys cyfarwyddebau ar gyfer gwastraff deunydd pacio, gwastraff offer trydanol ac electronig, cerbydau


diwedd oes, batris a chronaduron, a gwastraff amaethyddol[23]. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio i ni fod y cyfarwyddebau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar ailgylchu, a'r unig un sy'n ymdrin yn benodol ag atal gwastraff yw'r rhan ar 'ofynion hanfodol' yn y Gyfarwyddeb deunydd pacio, sy'n adlewyrchu egwyddor 'cyfrifoldeb cynhyrchwyr'[24].

1.16 Er enghraifft, defnyddiodd Llywodraeth Cymru bwerau deddfwriaeth i gefnogi atal gwastraff trwy gyflwyno'r tâl am fagiau plastig untro (Blwch 3). Dengys hyn bod defnyddio deddfwriaeth ac ysgogiadau eraill mwy ffurfiol mewn modd priodol a mesuradwy yn gallu dylanwadu ar ymddygiad cwsmeriaid hefyd, gan eu gwneud yn fwy agored i newidiadau eraill sy'n cefnogi mentrau amgylcheddol.

## Blwch 3: gweithredu'r tâl am fagiau plastig untro

Yn ystod 2009, aeth cwsmeriaid Cymru ag oddeutu 350 miliwn o fagiau plastig adref gyda nhw o archfarchnadoedd mawr yn unig. Ym mis Hydref 2011, cyflwynodd Llywodraeth Cymru dâl i leihau nifer y bagiau plastig a ddefnyddiwyd yng Nghymru.

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i godi tâl am fagiau plastig untro. Gwnaeth Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 gyflwyno tâl lleiaf o bum ceiniog am bob bag. Ers mis Hydref 2011, mae manwerthwyr wedi gofyn am y tâl ar bwynt gwerthu.




Nod cyffredinol y tâl am fagiau plastig untro oedd lleihau nifer y bagiau plastig a ddefnyddiwyd yng Nghymru yn sylweddol, defnyddio llai o adnoddau, atal gwastraff a lleihau eu heffeithiau niweidiol ar yr amgylchedd. Disgwyliwyd hefyd y byddai annog cwsmeriaid i ymddwyn yn wahanol yn hyn o beth yn gallu newid agweddau tuag at wastraff mewn ffyrdd eraill yn anuniongyrchol.

Canfu data a gyhoeddwyd gan Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau ym mis Gorffennaf 2015[25] fod nifer y bagiau plastig tenau a ddarparwyd gan saith prif archfarchnad yng Nghymru wedi gostwng 78% ers i'r tâl gael ei gyflwyno yn 2011.

23 Bydd targedau ac ymrwymiadau cyfredol sydd wedi'u nodi eisoes yn neddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn berthnasol nes y bydd llywodraeth y DU, neu weinyddiaethau datganoledig fel y bo'n briodol, yn rhoi deddfwriaeth arall ar waith i fynd ar drywydd gwahanol ar ôl Brexit.

24 Sicrhau bod busnesau sy'n gwerthu neu'n cynhyrchu cynhyrchion yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y gwastraff a gynhyrchir wrth eu cynhyrchu ac am eu cynnyrch pan fyddant yn cyrraedd diwedd eu hoes.

25 Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau, **Data ar Gytundeb Gwirfoddol y DU ar gyfer Bagiau Plastig 2014**, Gorffennaf 2015.

1.17 Ym mis Mai 2011, enillodd Cymru allu deddfwriaethol i gyflwyno'i chyfreithiau amgylcheddol ei hun. Mae pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys y cwmpas ar gyfer cyfreithiau newydd ar ddiogelu'r amgylchedd (ar lygredd, niwsansau a sylweddau peryglus) ac ar agweddau amrywiol ar reoli gwastraff. Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn gosod deddfwriaeth fel y gall Llywodraeth Cymru reoli ei hadnoddau mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydlynol, ac i helpu i drechu'r newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, mae'r Ddeddf yn ehangu pwerau Gweinidogion Cymru fel y gallant wneud rheoliadau i osod tâl ychwanegol am fathau eraill o fagiau plastig, fel 'bagiau am oes'.

1.18 Ym mis Mawrth 2016, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad o'r newydd i ystyried 'ehangu cyfrifoldeb cynhyrchwyr' yng nghyd-destun ymrwymiadau cynlluniau sector cyfredol, er mwyn ysgogi buddsoddiad mewn effeithlonrwydd deunyddiau, lleihau faint o wastraff a gynhyrchir yn y pen draw ac er mwyn ehangu cylchred oes y cynhyrchion a ddefnyddir. Un o'r prif amcanion o ran ehangu cyfrifoldeb cynhyrchwyr yw i 'symud y cyfrifoldeb ariannol am drin cynhyrchion ar ddiwedd eu hoes o awdurdodau cyhoeddus lleol i gynhyrchwyr, ac i gwsmeriaid yn y pendraw, gan leihau'r baich ar gyllidebau cyhoeddus a threthdalwyr'[26]. Mae rhaglenni dychwelyd sy'n helpu cwsmeriaid i ddychwelyd cynnyrch i wneuthurwyr eu hailgylchu neu eu hailddefnyddio yn un enghraifft o weithgaredd sy'n ymwneud â chyfrifoldeb cynhyrchwyr.

1.19 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith ymchwil i arfarnu costau a buddion cynllun cyfrifoldeb estynedig i gynhyrchwyr ar gyfer chwe math allweddol o ddeunydd pacio bwyd a diod. Yn ogystal â hyn, ym mis Gorffennaf 2018, gwnaeth Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau gyhoeddi dadansoddiad o fap ffordd ar gyfer camau gweithredu ac ymyriadau y gellid eu rhoi ar waith i gefnogi'r gwaith ychwanegol o baratoi gwastraff i'w ailddefnyddio, gan gyfeirio at ddulliau gweithredu a fabwysiadwyd yng Ngwlad Belg, Ffrainc, Sbaen a'r Alban[27]. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill ar gynigion i newid y rheoliadau ar gyfer gwastraff deunydd pacio yn y DU er mwyn cyflwyno cyfrifoldeb estynedig i gynhyrchwyr[28].

26 Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), **Extended Producer Responsibility – Updated Guidance for Efficient Waste Management**, 2016.

27 Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau, **Paratoi ar gyfer ailddefnyddio: mapio'r llwybr tuag at newid sylfaenol**, Gorffennaf 2018.

28 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (llywodraeth y DU), Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (Gogledd Iwerddon), **Ymgynghoriad ar ddiwygio'r system ar gyfer cyfrifoldebau cynhyrchwyr deunyddiau pacio yn y DU**, Chwefror 2019.

1.20 Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl hefyd mewn gwastraff fel y rheolydd ar gyfer deddfwriaeth rheoli gwastraff ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. Yn benodol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno trwyddedau amgylcheddol i osodiadau diwydiannol mawr, gan gynnwys ffatrïoedd gweithgynhyrchu bwyd mawr, ffatrïoedd puro metel mawr, ffatrïoedd cemegol mawr a ffatrïoedd ynni mawr. Mae'r trwyddedau hyn ar gyfer gosodiadau mawr yn cynnwys gofyniad effeithlonrwydd adnoddau penodol sy'n rhoi'r cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru ddylanwadu ar atal gwastraff ar y safleoedd hyn. Nid ydym wedi ystyried pa mor effeithiol mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni ei gyfrifoldebau rheoleiddio presennol fel rhan o'r gwaith hwn.

1.21 Gwnaeth Deddf Cymru 2014 drosglwyddo rhai pwerau codi trethi i Gymru mewn perthynas â'r Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac amrywiadau i'r dreth incwm. Cred Llywodraeth Cymru y bydd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn parhau i annog pobl i wneud mwy o ran atal, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff. Yn ogystal, nod Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yw cefnogi prosiectau amgylcheddol a chymunedol mewn ardaloedd a effeithir gan warediadau gwastraff i safleoedd tirlenwi. Mae gan y cynllun, a reolir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, gyllideb flynyddol o £1.5 miliwn, gan gynnwys £100,000 ar gyfer gwaith gweinyddol a chydag £1.4 miliwn ar gael i ddyfarniadau grant. Atal gwastraff yw un o dair blaenoriaeth y gronfa.

1.22 Gan na fydd pwerau o ran trethi corfforaethol a TAW wedi eu datganoli o hyd, ni fydd gan Lywodraeth Cymru reolaeth uniongyrchol dros rai o'r prif ysgogiadau cyllidol ar gyfer busnesau neu gwsmeriaid. Fodd bynnag, mae gweddill y DU hefyd yn ceisio llunio agenda atal gwastraff debyg i Gymru. Enghraifft o dreth a allai weithio orau ledled y DU yw treth ar gynhyrchu plastig untro (neu blastig tafladwy), gyda thrafodaethau cynnar yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU ar y ffordd orau o atal gwastraff plastig diangen. Mae'r strategaeth wastraff ddiwygiedig ar gyfer Lloegr, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, yn cynnwys cynnig i gyflwyno treth ledled y DU ar ddeunydd pacio plastig.

1.23 Gallai sefydlu dull cyffredin o drethu adnoddau gwastraff penodol ledled y DU hefyd leihau symudiad y deunyddiau hyn i awdurdodaethau gyda chyfreithiau trethu mwy ffafriol. Yn ogystal â hyn, mae Sweden yn ystyried cyflwyno seibiannau treth ar drwsio er mwyn annog ailddefnyddio, fel haneri cyfradd y TAW ar waith trwsio beiciau, dillad ac esgidiau.

1.24 Nid yw ysgogiadau ariannol yn gyfyngedig i'r sector cyhoeddus, gyda Phwyllgor Archwilio Amgylcheddol y DU yn galw am 'ardoll latte' o 25 ceiniog ar bob cwpan plastig untro a werthir gan fanwerthwyr[29]. Mae Gweinidogion Cymru wedi nodi y byddant yn edrych ar y potensial i godi tâl ar gwpanau diodydd untro er mwyn annog ailddefnyddio, yn unol â phenderfyniadau a wneir gan Ganghellor y Trysorlys yn dilyn galwad am dystiolaeth o dreth ar ddeunydd plastig untro. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda llywodraeth y DU i ddatblygu ymgynghoriad ar y cyd ar opsiynau ar gyfer cynllun dychwelyd ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd, a fyddai'n gweld cwsmeriaid yn talu mwy am ddiodydd a werthir mewn cynwysyddion diodydd untro, ond gyda'r cyfle i hawlio'r gost ychwanegol honno yn ôl. Mae'r Alban eisoes wedi ymrwymo i roi cynllun dychwelyd ernes ar waith, cyn y cynllun arfaethedig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon[30].

1.25 Mae angen ystyried amrywiaeth o faterion wrth asesu costau a buddion cyffredinol cynlluniau o'r fath o'u cymharu â mesurau atal gwastraff eraill. Yn gyffredinol, mae Cymru ymhellach ar y blaen na rhannau eraill o'r DU gyda'i hailgylchu. Mae cynlluniau dychwelyd ernes yn debygol o arallgyfeirio cynwysyddion diodydd plastig, gwydr neu fetel o gasgliadau ailgylchu trefol a lleihau cyfraddau ailgylchu cynghorau, ond mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd unrhyw effaith yn gwneud llai nag un pwynt canran o wahaniaeth. Golyga hyn i gyd y gallai cynllun dychwelyd ernes, yn enwedig ar gyfer poteli plastig, gynnig llai o fudd yng Nghymru. Ond, gallai fod yn ddryslyd i gwsmeriaid ac yn anodd ei weinyddu pe na bai pob rhan o'r DU yn gweithredu cynllun tebyg.

1.26 Gallai rhoi mwy o bwyslais ar leihau poteli dŵr untro, efallai trwy newid ymddygiad a darparu mwy o ffynhonnau dŵr trefol neu gynlluniau lle bydd manwerthwyr yn cynnig ail-lenwi cynwysyddion dŵr i'r cyhoedd am ddim, yn mynd fwy at wraidd y broblem. Mae Gweinidog yr Amgylchedd wedi cyhoeddi'r dyhead i weld Cymru fel y 'cenedl ail-lenwi' gyntaf yn y byd ar gyfer dŵr yfed, fel ffordd o leihau'r defnydd o boteli plastig untro, ac mae wedi cyflwyno cyllid i gefnogi'r fenter 'Ail-lenwi Cymru'. Rheswm arall dros ganolbwyntio mwy ar atal gwastraff yw'r cyfyngiad ar y farchnad yn ddiweddar i allforio gwastraff plastig i'w drin yn Tsieina, ac nid oes digon o gapasiti i ailgylchu deunyddiau plastig yn y DU pan fyddant wedi eu casglu.

29 Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol Senedd y DU, **Disposable Packaging: Coffee Cups**, Ionawr 2018.

30 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (llywodraeth y DU), Llywodraeth Cymru, Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (Gogledd Iwerddon), Ymgynghoriad ar gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, Chwefror 2019.

1.27 Opsiwn arall a allai leihau maint y gwastraff gweddilliol sy'n cael ei gynhyrchu yw gosod prisiau amrywiol ar gyfer casglu gwastraff yn ôl pwysau neu gyfaint, a elwir yn 'talu wrth daflu'. Gall hyn fod yn ddefnyddiol o ran ehangu cyfrifoldeb cwsmeriaid dros y cynnyrch maent wedi eu prynu, a'u taflu ymaith wedi hyn. Mae nifer o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd a gwledydd eraill wedi rhoi cynlluniau talu wrth daflu ar waith.

1.28 Yn ôl yr adborth a dderbyniwyd gennym gan rai swyddogion o'r cyngor a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ychydig iawn o frwdfrydedd sydd i systemau talu wrth daflu. Fodd bynnag, mae cynghorau sy'n awyddus i gael mwy o bwerau i godi tâl am gasglu gwastraff yn y dyfodol. Mae enghreifftiau eisoes o gynghorau sy'n defnyddio'r bygythiad o gamau gorfodi a dirwyon yn erbyn cartrefi sy'n gwrthod ailgylchu yn fynych neu sy'n anwybyddu cyngor a rhybuddion ynghylch y swm o wastraff gweddilliol maent yn ei roi allan i'w gasglu.

1.29 Mae gan Lywodraeth Cymru gyfleoedd hefyd i ddylanwadu ar atal gwastraff drwy gyllid grant i fusnesau (fel y'i nodwyd ym mharagraff 1.4). Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Economi Gylchol o £6.5 miliwn i helpu mentrau bach a chanolig yng Nghymru i symud tuag at economi gylchol, lle y mae atal gwastraff yn gydran hanfodol ohoni[31]. Fodd bynnag, mae'r cyllid hwn yn cael ei ganolbwyntio ar ddatblygu marchnadoedd gwell ar gyfer deunydd eildro yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer deunydd plastig.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid sylweddol i gynghorau ar gyfer eu gwasanaethau rheoli gwastraff trefol, ond mae'r rhan fwyaf o hwn wedi'i wario ar gefnogi ailgylchu, gydag ychydig iawn ohono wedi ei wario ar atal gwastraff

1.30 Gwariodd cynghorau £242 miliwn ar reoli gwastraff trefol yn ystod 2016-17[32]. Talodd incwm grant Llywodraeth Cymru am oddeutu 85% o'r costau hyn. Roedd hyn yn cynnwys £60 miliwn o gymhorthdal grant penodol a ddarparwyd drwy'r Grant Refeniw Sengl, ynghyd â dyraniadau grant eraill llawer llai Cyfrannodd y dreth gyngor oddeutu £35 miliwn, a gwnaeth cynghorau hefyd ennill swm bychan o incwm i dalu'r costau hyn o daliadau uniongyrchol am wasanaethau. Daeth gweddill yr arian i dalu'r costau o Grant Cymorth Refeniw craidd y cynghorau.

31 Mae Zero Waste Scotland wedi lansio cronfa £18 miliwn debyg ym mis Mawrth 2016.

32 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, **Adroddiad Data Cyllid Gwastraff 2016-17**, Mawrth 2018.

1.31 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid grant penodol i gynghorau ar gyfer eu gwasanaethau gwastraff ers 2001-02, pan gyflwynwyd y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy ganddi. Tan iddo gael ei ddisodli gan y Grant Refeniw Sengl yn 2015-16, roedd Llywodraeth Cymru wedi gwario cyfanswm o £853 miliwn drwy'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy. Roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu i gynghorau ddefnyddio'r grant hwn i ddatblygu eu prosiectau a chyfleusterau ar gyfer dadansoddi gwastraff, llunio cynlluniau gwastraff rhanbarthol, atal gwastraff, ailgylchu a chompostio. Gallai'r Cynghorau benderfynu drostynt eu hunain sut i ddyrannu'r cyllid hwn o fewn amcanion cyffredinol y grantiau.

1.32 Dengys dadansoddiad blaenorol o'r gwariant hwn rhwng 2001-02 a 2007-08; mai dim ond 1% o'r grant hwn a wariwyd gan y cynghorau – o gyfanswm o £195.4 miliwn – ar hyrwyddo atal gwastraff. Rhwng 2008-09 a 2013-14, cafodd gwariant y cyngor ar atal gwastraff ei gynnwys mewn oddeutu £10.5 miliwn a wariwyd bob blwyddyn ar fentrau addysgol[33]. Yn ystod y cyfnod olaf hwn, bu cynghorau hefyd yn hybu ailgylchu, yn enwedig ar gyfer trin gwastraff bwyd a gwella'r gwaith o gasglu deunydd y gellir eu hailgylchu ar ymyl y ffordd.

1.33 Dengys Ffigur 3 fod cynghorau wedi gwario o leiaf £60 miliwn o'r £64.3 miliwn a ddyrannwyd gan y Grant Refeniw Sengl ar weithgareddau a oedd yn ymwneud yn bennaf â chynyddu ailgylchu yn ystod 2016-17. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru glustnodi'r Grant Refeniw Sengl ar gyfer ariannu'r gwaith o reoli gwastraff yn unig, ac roedd yn gofyn i gynghorau ddarparu un cynnig gwario blynyddol a oedd yn cynnwys; rheoli adnoddau naturiol yn well, gan gynnwys bioamrywiaeth a rheoli perygl llifogydd, gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau ac ansawdd yr amgylchedd lleol. Roedd Llywodraeth Cymru yn gofyn i gynghorau nodi mentrau unigol a'u cost, a sut byddent yn cyfrannu at y lliaws o fuddion gobeithiol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

33 Eunomia, **Review of the Sustainable Waste Management Grant**, Medi 2015.
Mae'r adolygiad yn cyfeirio at wario ar 'leihau gwastraff', sy'n cyd-fynd yn eang ag atal gwastraff ar sail diffiniad yr Undeb Ewropeaidd yng Nghyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff 2008 (Blwch 1).

Ffigur 3: defnydd y cynghorau o’r Grant Refeniw Sengl ar gyfer 2016-17 (£ miliynau)

| Maes gwasanaeth | Gwariant o’r Grant Refeniw Sengl |
|---|---|
| Deunydd sych y gellir eu hailgylchu | 26.2 |
| Trin bwyd a gwastraff gwyrdd | 24.2 |
| Canolfannau ailgylchu gwastraff cartref | 7.4 |
| Safleoedd dod â gwastraff ailgylchu | 0.5 |
| Gweithgareddau ailgylchu eraill | 1.7 |
| Gweithgareddau eraill | 4.3 |
| **Cyfanswm** | **64.3** |

Noder: Roedd gweithgareddau eraill yn cynnwys gwaith ar reoli perygl llifogydd ac ansawdd yr amgylchedd.

Ffynhonnell: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, **Adroddiad Cyllid Gwastraff 2016-17**, Mawrth 2018.

1.34 Mae Ffigur 4 yn dangos y symiau cymharol fach a wariwyd yn gyffredinol gan gynghorau ar atal gwastraff o’u cymharu â maes ailgylchu a meysydd gwasanaeth gwastraff eraill yn 2015-16 a 2016-17. Ni wnaeth wyth cyngor gofnodi unrhyw wariant ar atal gwastraff yn ystod 2015-16 ac ni wnaeth saith cyngor wneud hyn yn ystod 2016-17.

Ffigur 4: dadansoddiad o gyfanswm gwariant y cyngor ar wasanaethau gwastraff ar gyfer 2015-16 a 2016-17 (£ miliynau)

| Blwyddyn | Gwariant cyffredinol ar wasanaethau gwastraff | Casglu gwastraff | Gwaredu gwastraff | Ailgylchu | Atal gwastraff |
|---|---|---|---|---|---|
| 2015-16 | 234.0 | 57.4 | 86.2 | 91.0 | 2.8 |
| 2016-17 | 242.0 | 56.2 | 90.2 | 96.1 | 2.5 |

Noder: nid yw’r ffigurau’n cynnwys dibrisiant asedau cyfalaf.

Ffynhonnell: Darparodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y data hwn o ffurflenni Alldro Refeniw Llywodraeth Cymru.

1.35 Daeth adolygiad Eunomia o’r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy i’r casgliad bod cynghorau wedi gwneud defnydd cynyddol o’r grant i ariannu darpariaeth gwasanaethau craidd: gweithredu casgliadau ailgylchu ar ymyl y ffordd, casgliadau gwastraff bwyd a rheoli canolfannau ailgylchu gwastraff cartrefi. Ychydig iawn a grybwyllwyd yn yr adroddiad am atal gwastraff, ac awgrymwyd y dylai’r grant hwn, a’r grant a’i ddisodlodd wedi hyn, gael ei ddefnyddio’n bennaf i hybu ailgylchu. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi nodi hefyd bod angen edrych ar y proffil gwario drwy’r Grant Refeniw Sengl – a’r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy cyn hynny – mewn cyd-destun ehangach. Yn benodol, y pwysau ar gynghorau i gynyddu’r ailgylchu er mwyn cyflawni’r targedau ehangach ac osgoi cosbau ariannol.

1.36 O 2018-19, mae llawer o elfen wastraff y Grant Refeniw Sengl wedi ei throsglwyddo i setliad y Grant Cymorth Refeniw i gynghorau, gan roi’r rhyddid i gynghorau ddefnyddio’r cyllid hwn os ydynt yn dymuno, gan gynnwys ei ddefnyddio ar gyfer materion nad ydynt yn ymwneud â gwastraff. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio’r gweddill i ailsefydlu Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy annibynnol gwerth £18.2 miliwn i gyd, a bydd hwn yn cael ei ddefnyddio at ddibenion sy’n cynnwys, ymhlith pethau eraill, atal gwastraff.

## Rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2018, rhoddodd Llywodraeth Cymru £13 miliwn i dri sefydliad dielw a oedd ag amcanion a oedd yn cynnwys, ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i, atal gwastraff

1.37 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid craidd i sefydliadau amgylcheddol dielw. Ym mis Mehefin 2015, hysbysebodd Llywodraeth Cymru ‘alwad am gynigion cyllid craidd’ er mwyn dewis sefydliadau y byddai’n eu cefnogi rhwng mis Hydref 2015 a mis Mawrth 2018. Dyfarnodd Llywodraeth Cymru £22 miliwn o gymhorthdal grant i 16 o sefydliadau. Ym mis Mawrth 2018, estynnodd Llywodraeth Cymru gyfnod y cyllid grant hwnnw i fis Medi 2018 a chynyddu cyfanswm yr ymrwymiad i £25 miliwn ar sail pro-rata.

1.38 O’r sefydliadau a dderbyniodd gyllid grant, nododd Llywodraeth Cymru dri a oedd ag amcanion a oedd yn cynnwys, ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i, hyrwyddo atal gwastraff: Rhaglen Weithredu’r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau; Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru; a Fareshare Cymru[34]. Derbyniodd y tri sefydliad hyn bron i £13 miliwn i gyd rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2018 (Ffigur 5). Dyfarnodd Llywodraeth Cymru y rhan fwyaf o’r cyllid hwn – £11.2 miliwn – i Raglen Weithredu’r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau.

1.39 Penderfynodd Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o gyllid craidd i WRAP (£1.7 miliwn) a Fareshare Cymru (£50,000) hyd at ddiwedd mis Mawrth 2019[35]. Nid yw’r rhaglen Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru yn cael ei ariannu gan grant mwyach. Nid oes modd dadgyfuno gwariant neu ganlyniadau atal gwastraff o waith ehangach y sefydliadau hyn y mae cyllid Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi bob amser, sydd hefyd yn gallu cyflawni buddion economaidd-gymdeithasol eraill.

Ffigur 5: cyllid grant sy’n cefnogi atal gwastraff ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2018

| Sefydliad a chrynodeb o'r diben | Cyllid grant | Canlyniadau atal gwastraff allweddol a adroddwyd[1] |
|---|---|---|
| **Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru**<br>Darparu rhaglen gymorth i gynorthwyo’r diwydiant adeiladu i wella ei reolaeth ar adnoddau.<br>Y prif brosiect a oedd yn cynnwys elfen gref o atal gwastraff oedd y prosiect Galluogi Dim Gwastraff (EZW), a oedd yn cynnig cydweithrediad ar bob cam o’r gwaith o ddylunio, datblygu ac adeiladu safleoedd. Roedd yn darparu mentora a chymorth ymarferol gweithredol, gyda’r nod o leihau’r gwastraff a gynhyrchwyd a oedd yn cael ei waredu mewn safle tirlenwi. | £1.2 miliwn<br>(ar gyfer dibenion amrywiol) | 34,752 o dunelli wedi eu hatal drwy EZW[2] |

34 Mae gan Raglen Weithredu’r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau Fwrdd sy’n ymdrin â’i gweithgareddau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fel amod o’r grant a ddyfarnwyd yn haf 2015, mae un o swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynychu’r Bwrdd fel sylwedydd heb hawliau pleidleisio. Roedd un o swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn mynychu cyfarfodydd bwrdd Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru fel sylwedydd.

35 Nid yw’r trefniadau ar gyfer unrhyw gyllid craidd sy’n parhau y tu hwnt i fis Mawrth 2019 wedi ei gadarnhau eto.

| Sefydliad a chrynodeb o'r diben | Cyllid grant | Canlyniadau atal gwastraff allweddol a adroddwyd[1] |
|---|---|---|
| **Fareshare Cymru**<br>Cymorth i'r elusen sy'n derbyn bwydydd addas i'w bwyta ac o fewn y dyddiad dod i ben gan gyflenwyr masnachol ac o roddion eraill a fyddai'n cael eu gwaredu fel arall, ac yn eu hailddosbarthu i grwpiau agored i niwed. | £300,000<br>(y cwbl ar gyfer gweithgareddau sy'n cefnogi atal gwastraff) | 1,509 o dunelli o fwyd a diod wedi eu harallgyfeirio o wastraff i ailddosbarthu[3] |
| **Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau**<br>Ymgysylltu â chwsmeriaid er mwyn annog atal gwastraff, a chysylltu â masnachau a diwydiannau i wella rheolaeth adnoddau. Nod y rhaglen yw cynyddu effeithlonrwydd adnoddau deunyddiau, er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau yn y Strategaeth a chyflenwi economi gylchol i Gymru. | £11.2 miliwn<br>(Mae WRAP wedi amcangyfrif ei bod wedi gwario £0.55 miliwn y flwyddyn ar weithgareddau atal gwastraff penodol) | 5,295 o dunelli o wastraff bwyd wedi ei atal[4] |

Nodiadau:
1. Nid canlyniadau atal gwastraff yw'r unig faterion yr adroddir amdanynt.
2. Hyd at ddiwedd mis Mawrth 2018, gan fynd uwchlaw'r canlyniad targed o 32,000 o dunelli.
3. Hyd at ddiwedd mis Medi 2018.
4. Ar gyfer y tair blwyddyn ariannol rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2018. Mae'r ffigur yn adlewyrchu'r effeithiau o gymorth ar gyfer mentrau yn y diwydiant yn bennaf, ac nid yw'n cynnwys gwerthusiad o effeithiau Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff (paragraff 1.9).

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

1.40 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gontract ar wahân gyda Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau i gyflenwi'r Rhaglen Newid Cydweithredol[36] rhwng mis Hydref 2016 a mis Mawrth 2019, am gost o £2 miliwn y flwyddyn ar y mwyaf. Mae'r sefydliad hefyd wedi derbyn cyllid yn flaenorol i gefnogi'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau 'Cymru Effeithlon' Llywodraeth Cymru[37].

1.41 Fel rhan o'r adolygiad o Tuag at Ddyfodol Diwastraff, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad manwl o effaith a gwerth Cynllun Gwastraff Cymru[38]. Mae'r gwerthusiad yn ystyried effaith Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau, ond mae'n cydnabod rhai cyfyngiadau. Er enghraifft, mae'n nodi bod cwmpas y dadansoddiad a'i gywirdeb yn dibynnu ar y ffynonellau gwybodaeth eraill a adolygwyd. Mae hefyd yn amlygu gorgyffwrdd posibl rhwng yr effeithiau economaidd a amcangyfrifwyd ar gyfer gweithgareddau Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau a gweithgareddau ehangach.

1.42 Nid yw'r gwerthusiad yn gwahaniaethu rhwng y buddion y gellir eu priodoli i weithgareddau atal gwastraff. Yn gyffredinol fodd bynnag, mae'n nodi'r effeithiau canlynol o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau rhwng 2011 a 2015:

- bron i £83 miliwn o dwf mewn gwerthiant trwy gamau a gymerwyd gan fuddiolwyr gweithgareddau yng Nghymru sy'n ymwneud ag ailgylchu ac ailbrosesu deunyddiau gwastraff
- £8.4 miliwn mewn arbedion cost i fusnesau, cartrefi a'r sector cyhoeddus, trwy ailgylchu ac osgoi cynhyrchu gwastraff
- £14.9 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol gan y sector preifat o ailgylchu ac ailbrosesu deunyddiau gwastraff ac
- 121 o swyddi cyfwerth ag amser llawn wedi eu creu gan fuddiolwyr gweithgareddau Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau yng Nghymru sy'n ymwneud ag ailgylchu ac ailbrosesu deunyddiau gwastraff.

36 Mae'r Rhaglen Newid Cydweithredol yn cefnogi cynghorau drwy gynnig adolygiadau o wasanaethau rheoli gwastraff, cynlluniau busnes, cymorth gweithredol a marchnata deunyddiau. Trafodir y Rhaglen mewn mwy o fanylder yn ein hadroddiad ar wahân ar ailgylchu trefol: Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Ailgylchu Trefol**, Tachwedd 2018.

37 Er nad yw'n gweithredu mwyach, roedd Cymru Effeithlon yn bwynt cyswllt i helpu unigolion, cymunedau, busnesau a sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru i arbed ynni a dŵr ac i leihau ac ailddefnyddio gwastraff.

38 Llywodraeth Cymru, **Adolygiad o Gynllun Gwastraff Cymru – Gwerthusiad CGC ffrwd waith 1 – Cyflawni'r Amcanion a Gwireddu'r Manteision – Rhan B Adroddiad Manwl**, Mehefin 2017.

Rhan 2

# Mae'r data a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru i fesur perfformiad yn erbyn ei thargedau atal gwastraff uchelgeisiol o ansawdd amrywiol ac yn nodi cynnydd cymysg



2.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn edrych ar y data sydd ar gael ar wastraff a gynhyrchir yng Nghymru, gan gynnwys data ar wastraff trefol a gwastraff nad yw'n drefol. Rydym yn ystyried a oes gan Lywodraeth Cymru ddigon o ddata am y gwastraff a gynhyrchwyd i ddarparu sylfaen wybodaeth briodol ar gyfer datblygu a monitro polisïau atal gwastraff. Rydym yn cydnabod fod cost wedi bod yn ffactor o ran pa mor aml y cesglir ychydig o'r data hwn.

# Mae gan Lywodraeth Cymru ddata da ar wastraff trefol, ond ychydig iawn o ddata sydd ganddi ar y rhan fwyaf o'r mathau eraill o wastraff

## Mae gan Lywodraeth Cymru ychydig o ddata da ar swm, mathau a chyrchfan gwastraff trefol

2.2 Mae Llywodraeth Cymru yn cael data blynyddol a chwarterol ar reoli gwastraff trefol drwy system o'r enw WasteDataFlow[39]. System adrodd statudol yw WasteDataFlow sy'n ffynhonnell sefydledig o dystiolaeth ar gyfer gweithgareddau gwastraff trefol ac ailgylchu yn y DU. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y DU, Llywodraeth Cymru ac awdurdodaethau eraill yn y DU yn gyd-berchenogion WasteDataFlow. Bob tri mis, mae cynghorau'n bwydo eu data i mewn i WasteDataFlow yn uniongyrchol, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal gwiriadau dilysu amrywiol ar y data ar gyfer Cymru.

2.3 Er bod rhai cyfyngiadau amlwg yn y system, mae'r wybodaeth a gesglir trwy WasteDataFlow yn tanategu'r data gwastraff swyddogol a gyhoeddir ar gyfer Cymru, bob chwarter a/neu bob blwyddyn ac ar lefel Cymru gyfan ac awdurdod lleol/rhanbarthol. Mae Ffigur 6 yn dangos yr amrediad o ddata a gyhoeddir gan StatsCymru ar reoli gwastraff trefol.

39 Gellir cael rhagor o wybodaeth ar wefan WasteDataFlow yn www.wastedataflow.org

Ffigur 6: crynodeb o'r data ar wastraff trefol yng Nghymru sy'n hawdd cael gafael arno drwy WasteDataFlow

**Mae'r data sydd ar gael ar wastraff trefol yn cynnwys:**

- Cyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd yn ôl ffynhonnell
- Rheoli gwastraff trwy wahanol ddulliau
- Gwastraff a gasglwyd i'w ailddefnyddio/ailgylchu/compostio yn ôl deunydd (65 o gategorïau) a ffynhonnell
- Cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio
- Gwastraff gweddilliol a gynhyrchwyd fesul unigolyn
- Gwastraff gweddilliol a gynhyrchwyd fesul annedd



Ffynhonnell: StatsCymru yn seiliedig ar WasteDataFlow

2.4 Yn ogystal â'r data sydd ar gael drwy WasteDataFlow, mae gan Lywodraeth Cymru ddata ariannol ar reoli gwastraff drwy'r Rhaglen Gwella Gwastraff[40]. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i redeg y Rhaglen Gwella Gwastraff, sy'n anelu at gefnogi adroddiadau mwy cyson ar wariant cynghorau ar reoli gwastraff. Mae'r system WasteDataFlow a'r system cyllid gwastraff o dan y Rhaglen Gwella Gwastraff yn ddulliau sefydledig o ddarparu data manwl a chyfredol ar reoli gwastraff trefol. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith ymchwil hefyd i ymchwilio i faterion data penodol ar wastraff trefol.

## Nid oes gan Lywodraeth Cymru ddata cyfredol ar faint o wastraff masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel sy'n cael ei gynhyrchu, ond bwriedir casglu ychydig o ddata pellach

2.5 Y sectorau masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel sy'n cynhyrchu llawer o'r gwastraff a gynhyrchir yng Nghymru, oddeutu 80% ohono. Mae Llywodraeth Data yn cael data ar y mathau hyn o wastraff drwy arolygon cyfnodol (Blwch 4). Daw'r data mwyaf cyfredol ar y mathau hyn o wastraff o arolwg a gynhaliwyd yn 2012. Mae paragraffau 2.18 i 2.20 a Ffigur 10 yn nodi rhai o brif ganfyddiadau arolwg 2012.

40 Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynhyrchu Adroddiad Cyllid Gwastraff blynyddol.

## Blwch 4: arolygon i amcangyfrif faint o wastraff nad yw'n drefol a gynhyrchir yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cael data ar wastraff nad yw'n drefol drwy ei harolygon cyfnodol o wastraff masnachol a diwydiannol, a gwastraff adeiladu a dymchwel a gynhyrchir gan gwmnïau preifat. Mae'r arolygon hyn yn cael gwybodaeth am faint o wastraff y mae sampl o gwmnïau'n ei gynhyrchu o fewn cyfnod penodol. Gwneir hyn bob pump neu chwe blynedd.

Ers 2002, mae'r Undeb Ewropeaidd wedi gofyn i aelod-wladwriaethau ddarparu data ar gynhyrchu a rheoli gwastraff ac ar seilwaith gwastraff bob dwy flynedd. Darperir y data hwn ar gyfer Cymru gan ddefnyddio ffynonellau data amrywiol, gan gynnwys data'r arolwg ar gyfer gwastraff diwydiannol, masnachol, adeiladu a dymchwel.



Pan na fydd unrhyw ddata arolwg newydd ar gael mewn blwyddyn adrodd benodol, caiff y gwastraff a gynhyrchir mewn sectorau unigol ei seilio ar ganlyniadau blaenorol a thueddiadau eraill. Nid oes unrhyw ofyniad penodol i gynnal arolygon gwastraff o fewn cyfnodau pendant.

2.6 Mae cynnal yr arolygon gwastraff hyn ar raddfa sy'n sicrhau eu bod yn darparu digon o ddata dibynadwy a defnyddiol yn ddrud. Gwnaeth yr arolwg diweddaraf yn 2012 gostio oddeutu £345,000. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru lunio a chomisiynu'r arolwg nesaf ar gyfer gwastraff diwydiannol a masnachol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi penodi contractwr ac mae wrthi'n cynllunio gwaith yr arolwg ar hyn o bryd. Nid oes cynlluniau wedi eu cadarnhau eto ar gyfer arolwg pellach o wastraff adeiladu a dymchwel.

2.7 Yn 2011, cyhoeddodd Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) Strategaeth Data Gwastraff ar gyfer yr Alban gyda'r nod o wella'r ddealltwriaeth o'r gwastraff a gaiff ei gynhyrchu a'i reoli yn yr Alban. Nod y strategaeth yw darparu sylfaen wybodaeth i'w defnyddio wrth gyflawni strategaeth wastraff yr Alban. Gwnaeth y Strategaeth Data Gwastraff ar gyfer yr Alban amlygu'r angen i wella ansawdd a manylder y data sy'n codi ar wastraff masnachol a diwydiannol yn ôl sector economaidd. Yn dilyn cyhoeddiad y Strategaeth Data Gwastraff ar gyfer yr Alban, mae SEPA yn cael data am wastraff nad yw'n drefol drwy ffynonellau amrywiol bellach. Mae gwefan SEPA yn cynnwys data cryno ar y mathau a'r meintiau o wastraff a gaiff eu cynhyrchu a'u rheoli ledled yr Alban. Mae amrywiaeth o ddata ar wastraff masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel, yn ogystal â data ar wastraff trefol. Yn 2017, cyhoeddodd SEPA, mewn partneriaeth â Zero Waste Scotland a Llywodraeth yr Alban, strategaeth ddiwygiedig[41].

41 Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban, Zero Waste Scotland a Llywodraeth yr Alban, **A strategy for improving waste data in Scotland**, Hydref 2017.

2.8 Nid yw llywodraeth y DU wedi arolygu'r gwastraff masnachol a diwydiannol a gynhyrchir yn Lloegr ers 2009. Mae dull arall[42] sy'n seiliedig ar waith ymchwil a gomisiynwyd gyda mireinio ychwanegol yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i amcangyfrif faint o'r gwastraff hwn sy'n cael ei gynhyrchu ac i fodloni gofynion adrodd yr Undeb Ewropeaidd y mae llywodraeth y DU yn credu sy'n gwneud y defnydd gorau o'r data sydd ar gael eisoes.

2.9 O dan y ddyletswydd gofal ar gyfer darpariaethau gwastraff Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, rhaid cofnodi symudiad gwastraff yn y DU mewn nodyn trosglwyddo. Mae'r nodiadau trosglwyddo hyn yn cynnwys data ar bwysau a natur y gwastraff, a rhaid iddynt gael eu defnyddio gan unrhyw un sy'n cynhyrchu, mewnforio, cadw, storio, cludo, trin neu'n cael gwared ar wastraff er mwyn iddynt allu cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli'n briodol[43]. Gyda chymorth ariannol gan y Comisiwn Ewropeaidd, aeth Asiantaeth yr Amgylchedd ati, mewn partneriaeth â sefydliadau gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i ddatblygu system ddogfennu electronig, a elwir yn 'e-doc'. Cafodd hon ei lansio ledled y DU ym mis Ionawr 2014, ac mae wedi dangos gwerth posibl systemau electronig i gofnodi trosglwyddiad gwastraff, ond mae'r sefydliadau cysylltiedig hefyd wedi cydnabod ei chyfyngiadau presennol a'r bylchau sylweddol yn yr hyn y mae'n ymdrin ag ef.

2.10 Mae Llywodraeth Cymru yn bartner mewn gwaith darganfod cychwynnol sy'n cael ei wneud o dan her Catalydd GovTech[44] i asesu dichonoldeb datblygu datrysiad digidol newydd i olrhain gwastraff. Byddai hwn yn cyflwyno manteision posibl, gan gynnwys cofnodi data mwy cywir ar wastraff a galluogi gwastraff i gael ei reoli'n well. Bydd y prosiect 'olrhain gwastraff' hwn yn edrych ar opsiynau i olrhain pob gwastraff, gan gynnwys data'r awdurdodau lleol ar wastraff trefol a gofnodir drwy WasteDataFlow ar hyn o bryd.

42 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, **Commercial and Industrial Waste Arisings Methodology Revisions for England**, Chwefror 2018.

43 Nid yw'r trefniadau nodiadau trosglwyddo hyn yn cynnwys gwastraff peryglus.

44 Menter Gwasanaeth Digidol gan lywodraeth y DU yw'r Catalydd GovTech, a redir mewn partneriaeth ag Innovate UK. Mae'n cynnig £20 miliwn o gyllid ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu y gall cyrff cyhoeddus wneud cais amdano ar draws tair blynedd.

## Mae’r data sydd ar gael ar faint o wastraff a gynhyrchir yn nodi cynnydd cymysg o ran cyflawni targedau atal gwastraff uchelgeisiol Llywodraeth Cymru

### Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer atal gwastraff, ond gyda’r cynnydd yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, mae’n anodd nodi llinellau atebolrwydd eglur

2.11 Yn **Tuag at Ddyfodol Diwastraff**, nododd Llywodraeth Cymru y byddai angen cael gostyngiad blynyddol o 1.5% yn y gwastraff cyffredinol sy’n cael ei gynhyrchu hyd at 2050, o linell sylfaen 2007. Mae Adroddiad Cynnydd 2015 Llywodraeth Cymru yn nodi fod cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir yng Nghymru wedi gostwng o oddeutu 14.5 miliwn o dunelli yn 2007 i 8.4 miliwn o dunelli yn 2012 (gostyngiad o 42%). Fodd bynnag, cydnabu’r adroddiad nad oedd unrhyw gynnydd wedi ei wneud dros yr un cyfnod o ran y targedau atal gwastraff ar gyfer gwastraff diwydiannol a masnachol. Mae adolygiad cryno 2017 Llywodraeth Cymru o gynnydd cynlluniau sector a chamau gweithredu’r rhaglen[45] yn nodi, ‘Rydym wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y targedau a osodwyd yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Mae hyn yn cynnwys lleihau’r gwastraff a gynhyrchir’. Fodd bynnag, ni wnaeth ystyried y perfformiad perthnasol ar draws gwahanol fathau o wastraff.

2.12 Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio’r targedau y mae wedi ei gosod ar gyfer lleihau gwastraff fel ‘targedau i ymgyrraedd atynt’, gan nad ydynt yn statudol. Fel y nodwyd gennym ym mharagraff 1.8, mae gwneud cynnydd ar atal gwastraff yn dibynnu ar amrywiaeth eang o ffactorau. O ganlyniad, nid yw pennu llinellau atebolrwydd clir ar gyfer gwneud cynnydd tuag at y targedau hyn yn broses syml, er bod defnyddio deddfwriaeth a chymelliadau ariannol yn gallu helpu i atgyfnerthu disgwyliadau (paragraffau 1.10 i 1.29).

45 Llywodraeth Cymru, **Cynllun Sector Gwastraff Tuag at Ddyfodol Diwastraff a Chamau Gweithredu’r Rhaglen Atal Gwastraff:Adroddiad Cryno Mehefin 2010 – Mawrth 2016**, Gorffennaf 2017

## Mae swm y gwastraff sy’n cael ei gynhyrchu mewn cartrefi wedi lleihau yn unol â tharged Llywodraeth Cymru ers 2006-07, ond gwelwyd ychydig o amrywiad yn y blynyddoedd diwethaf

2.13 Targed Llywodraeth Cymru ar gyfer gwastraff cartrefi yw cael gostyngiad o 1.2 y cant bob blwyddyn hyd at 2050, wedi ei gyfrifo o linell sylfaen 2006-07. Rhwng 2006-07 a 2013-14, gwnaeth maint y gwastraff yr oedd cynghorau yn ei gasglu o gartrefi ostwng o 1.57 miliwn i 1.35 miliwn o dunelli, sy’n gyfwerth ag oddeutu 2% y flwyddyn[46]. Cafwyd gostyngiad pellach yn 2014-15, ond mae’r ffigurau wedi amrywio ers hynny (Ffigur 7). Cynyddodd gwastraff trefol nad oedd yn wastraff cartrefi rhwng 2013-14 a 2015-16 ac mae wedi gostwng rhywfaint ers hyn, ond roedd yn parhau i fod yn uwch nag oedd yn 2013-14.

2.14 Serch yr amrywiadau diweddar yn swm y gwastraff sy’n cael ei gynhyrchu mewn cartrefi, mae’r perfformiad cyffredinol ers 2006-07 yn parhau i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o gael 1.2% o ostyngiad bob blwyddyn. Mae poblogaeth Cymru wedi parhau i dyfu dros yr un cyfnod. Gwelwyd rhywfaint o dwf mewn gwariant cartrefi yng Nghymru ers 2011-12, ond mae’r prif ffigurau yn cynnwys gwariant ar nwyddau a gwasanaethau na fyddai o reidrwydd yn cynhyrchu gwastraff yn y cartref.

46 Llywodraeth Cymru, **Adroddiad Cynnydd Tuag at Ddyfodol Diwastraff 2010-2050**, Gorffennaf 2015.

Ffigur 7: gwastraff trefol – wedi ei ddangos fel gwastraff cartrefi a gwastraff na ddaw o gartrefi – a gynhyrchwyd yng Nghymru rhwng 2013-14 a 2017-18 (mewn miloedd o dunelli a % y newid).

| | Gwastraff cartref | Gwastraff na ddaw o gartrefi | Holl wastraff trefol |
|---|---|---|---|
| **2013-14** | 1,349 | 208 | 1,557 |
| **2014-15** | 1,324 | 219 | 1,543 |
| **2015-16** | 1,366 | 226 | 1,592 |
| **2016-17** | 1,365 | 225 | 1,590 |
| **2017-18** | 1,330 | 220 | 1,550 |
| **% y newid rhwng 2013-14 a 2017-18** | -1.4% | +5.8% | -0.4% |

Noder: Rhwng 2006-07 a 2013-14, gwnaeth swm y gwastraff cartref a gasglwyd gan gynghorau ostwng o 1.57 miliwn o dunelli.


Ffynhonnell: StatsCymru yn seiliedig ar WasteDataFlow

2.15 Dengys Ffigur 8 ddadansoddiad o faint o wastraff cartref a gynhyrchir fesul preswylydd bob blwyddyn. Yn **Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned**[47], gosododd Llywodraeth Cymru darged i leihau maint y gwastraff cartref gweddilliol a gynhyrchwyd fesul preswylydd i 150 cilogram y flwyddyn erbyn 2024-25. Yn dilyn tueddiad i ostwng hyd at 2014-15, cynyddodd maint y gwastraff cartref gweddilliol a gynhyrchwyd gan bob preswylydd ychydig cyn disgyn eto i 184 cilogram yn 2017-18.

47 Llywodraeth Cymru, **Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned**, Mai 2009.

2.16 Mae ein gwaith ar gaffael capasiti trin gwastraff gweddilliol a gwastraff bwyd[48] wedi nodi fod amcanestyniadau a ddefnyddiwyd fel sylfaen i gontractau tri phrosiect mawr ar wastraff gweddilliol yn rhagdybio y bydd angen i gynghorau barhau i drin swm sylweddol o wastraff gweddilliol ar ôl 2040. Nid yw'r amcanestyniadau hynny'n alinio'n dda gyda dyhead cyffredinol Llywodraeth Cymru i gael sero gwastraff gweddilliol erbyn 2050.

Ffigur 8: gwastraff cartref gweddilliol fesul unigolyn (cilogramau) rhwng 2012-13 a 2017-18, a'r targed yn Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned ar gyfer 2024-25




Noder: Gwastraff gweddilliol yw'r gwastraff sy'n parhau ar ôl i'r deunydd a gafodd ei ailgylchu neu ei gompostio gael ei dynnu o'r ffrwd wastraff.

Ffynhonnell: StatsCymru, **Gwastraff Gweddilliol Awdurdodau Lleol, 2012-13 ymlaen**, cyrchwyd mis Rhagfyr 2018

48 Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Caffael Capasiti Trin Gwastraff Gweddilliol a Gwastraff Bwyd**, Hydref 2018.

2.17 Dengys Ffigur 9 gyfanswm y gwastraff cartref a gynhyrchwyd ledled gwahanol rannau o'r DU rhwng 2013 a 2017 ac ar gyfer cyfnodau yn y flwyddyn galendr. Awgryma'r data hwn nad yw polisïau atal gwastraff ledled y DU wedi cael llawer o effaith ar leihau'r gwastraff a gynhyrchir mewn cartrefi yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae'n bosibl bod y polisïau hyn wedi gwrthbwyso twf pellach. Ar sail y dadansoddiad hwn, roedd cyfradd y cynnydd mewn gwastraff a grëwyd mewn cartrefi eisoes ar ei hisaf yng Nghymru, cyn i ostyngiad rhwng 2016 a 2017 ddychwelyd Cymru i lefel ychydig yn is na'r hyn a adroddwyd ar gyfer 2013.

Ffigur 9: gwastraff o gartrefi yn y DU, rhwng 2013 a 2017 (miloedd o dunelli a % y newid)

| | Lloegr | Gogledd Iwerddon | Yr Alban | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| 2013 | 21,564 | 781 | 2,310 | 1,274 |
| 2014 | 22,355 | 806 | 2,348 | 1,285 |
| 2015 | 22,225 | 818 | 2,354 | 1,278 |
| 2016 | 22,770 | 845 | 2,378 | 1,307 |
| 2017 | 22,437 | 843 | 2,345 | 1,271 |
| % y newid rhwng 2013 a 2017 | +4.0% | +7.9% | +1.5% | -0.0% |

Noder: Mae'r data cymharol hwn ar gyfer cyfnodau mewn blwyddyn galendr, ac roedd y data ar gyfer Cymru yn Ffigur 7 ar gyfer blynyddoedd ariannol. Mae rhai addasiadau eraill i'r data er mwyn cymharu. Mae gwahaniaethau anochel ym maint y gwastraff a gynhyrchir oherwydd maint perthnasol y boblogaeth.

Ffynhonnell: Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, **UK Statistics on Waste**, Chwefror 2019


## Pan adroddwyd ar hyn ddiwethaf yn 2012, nid oedd unrhyw gynnydd wedi ei wneud i leihau maint y gwastraff masnachol a diwydiannol, ac roedd y dirywiad economaidd yn chwarae rhan arwyddocaol yn y gostyngiad mawr mewn gwastraff adeiladu a dymchwel

2.18 Cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru arolwg ar ran Llywodraeth Cymru[49] ar gyfer 2012 sy'n nodi faint o wastraff diwydiannol a masnachol a gynhyrchwyd yng Nghymru yn 2012. Canfu'r arolwg hwn fod mwy o wastraff diwydiannol wedi ei gynhyrchu yn ystod 2012 nag yn ystod 2007, ac roedd swm y gwastraff masnachol dim ond ychydig yn is nag yr oedd yn 2007. O ganlyniad, nid oedd y lefelau targed a osodwyd ar gyfer 2011-12 yn y strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff wedi eu cyflawni (Ffigur 10)[50]. Fodd bynnag, wrth gyhoeddi canlyniadau arolwg 2012, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod y ddau arolwg yn cynnig cyfleoedd am gamgymeriadau, felly camgymeriad samplu fydd yn gyfrifol am wahaniaethau weithiau yn hytrach na newid gwirioneddol mewn cynhyrchu gwastraff.

49 Cyfoeth Naturiol Cymru, **Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol a Gynhyrchwyd yng Nghymru 2012**, (dogfen heb ddyddiad)

50 Mae dadansoddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wedi nodi cyn hyn yr oedd tri safle diwydiannol yn cynhyrchu hanner y gwastraff diwydiannol ar safleoedd a ganiateir yng Nghymru: Oakdene and Hollins Research and Consulting – **Waste Reduction Study Wales Regulated Industries-Evidence Report**, Rhagfyr 2014.

Ffigur 10: pwysau bras y gwastraff masnachol a diwydiannol a gynhyrchwyd yng Nghymru rhwng 2007 a 2012[1] (miliynau o dunelli)




Nodiadau:


1. Mae cyfyngiadau'r data a ddefnyddiwyd yn yr arolygon, a achoswyd gan gamgymeriad samplu er enghraifft, yn golygu y gellid gweld gwahaniaeth o hyd at 11.7% yn y gwerthoedd gwirioneddol ar gyfer 2012 mewn rhai achosion. Nid oes data i ddangos os a sut gwnaeth y cyfraddau newid rhwng blynyddoedd arolygu. Mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu.
2. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod arwyddion bod gorsafoedd ynni a redir gan lo yng Nghymru wedi gweithredu am gyfnodau hirach yn 2012 nac yn 2007, ac felly wedi creu mwy o wastraff lludw, ac roedd gostyngiad ym maint y gwastraff a amcangyfrifwyd pan na chynhwyswyd y sector ynni a chyflenwi.

Ffynhonnell: Arolygon sector a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwastraff diwydiannol a masnachol a'r strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff ac Adroddiad Cynnydd 2015.

2.19 Gosododd Tuag at Ddyfodol Diwastraff linell sylfaen o 5.41 miliwn o dunelli ar gyfer gwastraff adeiladu a dymchwel ar gyfer 2006-07, gan osod targed i ostwng hyn i 5.03 miliwn o dunelli erbyn 2011-12. Gwnaethom gwestiynu hyn gyda Llywodraeth Cymru, oherwydd roedd ei Adroddiad Cynnydd 2015 yn nodi ffigur llinell sylfaen o 9.42 miliwn o dunelli o ganlyniadau arolwg 2005 ar gyfer gwastraff adeiladu a dymchwel. Deallwn fod y ffigur ar gyfer 2005 yn yr Adroddiad Cynnydd yn seiliedig ar ailddatganiad blaenorol o ganlyniadau'r arolwg er mwyn gwneud y ffigur yn un y gellid ei gymharu â'r dull gweithredu ar gyfer arolwg 2012. Roedd y llinell sylfaen a ddefnyddiwyd yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn defnyddio addasiad gwahanol trwy gael gwared ar bron i saith miliwn o dunelli o wastraff yr adroddwyd eu bod wedi eu hailddefnyddio ar safle, er enghraifft pridd ac agregau. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd yn datrys yr anghysondeb hwn fel rhan o'i hadolygiad o Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Defnyddiodd yr Adroddiad Cynnydd ddefnyddio canlyniadau arolwg 2012 i ddangos gostyngiad i 3.4 miliwn o dunelli yn 2012, a oedd ymhell uwchlaw cyfradd y gostyngiad oedd ei hangen i gyflawni targed Llywodraeth Cymru.

2.20 Mae Mynegai Adeiladu Cymru (Ffigur 11) yn rhoi ychydig mwy o wybodaeth am effaith y dirwasgiad ar y sector adeiladu. Dengys y Mynegai fod yr allbwn economaidd o waith adeiladu wedi gostwng rhwng 2007 a 2010, cyn y gwelwyd yr arwyddion adfer cyntaf. Syrthiodd yr allbwn economaidd bron i 24% yn y cyfnod rhwng 2007 a 2012. Mewn cymhariaeth, gwnaeth maint y gwastraff adeiladu a dymchwel a gynhyrchwyd ostwng oddeutu 64%. Mae Adroddiad Cynnydd 2015 Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y dirywiad economaidd wedi cael effaith arwyddocaol ar y sector o 2008 ymlaen, o ran lleihau'r gweithgarwch adeiladu a faint o wastraff a gynhyrchwyd. Yn ogystal, nid oedd unrhyw brosiectau seilwaith mawr yng Nghymru a oedd yn gyfrifol am feintiau mawr iawn o wastraff yn ystod 2012 o'i chymharu â 2005. Yn yr un modd â'r arolygon ar gyfer gwastraff masnachol a diwydiannol, mae angen ystyried y cyfleoedd am gamgymeriadau yn yr arolygon adeiladu a dymchwel o hyd wrth wneud cymariaethau.

Ffigur 11: Mynegai Adeiladu Cymru sy'n dangos y symudiadau tymor byr yn allbwn economaidd y diwydiant adeiladu rhwng 2002 a 2017




Noder: Mae'r ffigurau hyn yn cymryd 2016 fel y flwyddyn sylfaen (100 ar y mynegai) ac yna caiff ffigurau'r blynyddoedd blaenorol a dilynol eu cymharu fel canran o'r allbwn a gofnodwyd ar gyfer 2016.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (gwefan StatsCymru), **Mynegai Adeiladu Cymru (2016=100), yn ôl blwyddyn ac ardal**, fel y cyrchwyd ym mis Mawrth 2019.

## Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i 'ddatgysylltu' y gwastraff a gynhyrchir o weithgarwch economaidd

2.21 Roedd llywodraeth y DU wedi rhagweld[51] y byddai'r DU yn dychwelyd i gynhyrchu mwy o wastraff o 2011 ymlaen wrth i'r dirywiad economaidd leihau. Gelwir y weithred o wahanu'r berthynas rhwng gweithgarwch economaidd a chynhyrchu gwastraff fel bod llai o adnoddau'n cael eu defnyddio i gynhyrchu llai o wastraff fesul uned o weithgarwch economaidd yn 'ddatgysylltu'. Mae datgysylltu'n hanfodol ar gyfer strategaeth atal gwastraff effeithiol, a hwn yw un o brif amcanion y Rhaglen Atal Gwastraff i Gymru.

51 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, **The Economics of Waste and Waste Policy. Atodiad A: Data, projections and 2050**, Mehefin 2011.

2.22 Yn ei adroddiad yn 2012[52], daeth Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau i'r casgliad fod 'tystiolaeth gref' ar lefel y DU fod datgysylltu wedi dechrau digwydd ar gyfer gwastraff cartrefi, ond ni allai ddweud a oedd datgysylltu wedi dechrau digwydd ar gyfer gwastraff masnachol a diwydiannol, nac ar gyfer gwastraff adeiladu a dymchwel. Mae Adroddiad Cynnydd 2015 Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i dorri'r cysylltiad rhwng cynhyrchu gwastraff a thwf economaidd. Heb ddata wedi ei ddiweddaru ar gyfer gwastraff masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel, mae'n anodd asesu a yw'r cyswllt hwn wedi ei dorri i unrhyw raddau ystyrlon wrth i'r darlun economaidd wella ers 2012.

2.23 Mae gwerthusiad Llywodraeth Cymru o Gynllun Gwastraff Cymru[53] yn cydnabod y prinder data ar wastraff nad yw'n drefol a'i hansicrwydd ynghylch perfformiad. Ar sail y modelu, amcangyfrifodd y gwerthusiad gynnydd o 1.1% mewn gwastraff diwydiannol rhwng 2009-2010 a 2014-15 a gostyngiad o 42.6% mewn gwastraff adeiladu a dymchwel. Amcangyfrifodd y gwerthusiad fod hwn, ynghyd â gwastraff cartrefi, wedi gostwng 23.3% yn gyffredinol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r amcangyfrifon hyn yn darparu dangosydd o gynnydd, ond nid oes dim i guro data cyfredol a dibynadwy.

52 Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau, **Decoupling of Waste and Economic Indicators**, Hydref 2012.

53 Llywodraeth Cymru, **Adolygiad o Gynllun Gwastraff Cymru – Gwerthusiad CGC ffrwd waith 1 – Cyflawni'r Amcanion a Gwireddu'r Manteision. Tabl 5**, Mehefin 2017.

# Atodiadau



# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Cawsom lawer o'r data y gwnaethom ei ddefnyddio i lywio'r adroddiad hwn gan Lywodraeth Cymru, ac yn benodol, o'i strategaethau a chynlluniau sector, adolygiadau cynnydd a gwerthusiadau. Rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygiadau ers cyhoeddi'r Rhaglen Atal Gwastraff ym mis Rhagfyr 2013, ond rydym wedi ystyried data blaenorol pan fydd hwn yn dangos tueddiadau ehangach.

Cawsom hefyd ddatganiadau gweinidogol perthnasol, ymgynghoriadau a oedd yn ymwneud ag atal gwastraff, cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad, canlyniadau arolygon, gwybodaeth am ddiwydiannau a reoleiddir, sylwadau ar ddeddfwriaeth Cymru gan gynnwys y gwaith o drosi deddfwriaeth gwastraff yr Undeb Ewropeaidd, a gwybodaeth am gyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, cawsom ddata o ffynonellau wedi eu dilysu fel WasteDataFlow, bwletinau StatsCymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ac o'r set o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol.

Roedd ein ffynonellau data eraill ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys yr Undeb Ewropeaidd, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. Cawsom ddata dogfennol hefyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau a Zero Waste Scotland.

Yn ogystal â Llywodraeth Cymru, gwnaethom gynnal cyfweliadau gyda'r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- cynrychiolwyr rheoli gwastraff o gynghorau Caerffili, Sir Fynwy a Rhondda Cynon Taf;
- Is-grŵp Gwastraff y Gymdeithas Syrfewyr Sirol – y corff cynrychiolwyr ar gyfer rheolwyr gwastraff cynghorau yng Nghymru;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff;
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; a
- Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau.

# Atodiad 2

## Prif elfennau Rhaglen Atal Gwastraff Llywodraeth Cymru a chynlluniau'r sector gwastraff

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Atal Gwastraff ym mis Rhagfyr 2013. Mae'r Rhaglen yn cefnogi Tuag at Ddyfodol Diwastraff trwy ddisgrifio'r canlyniadau, y polisïau, y targedau ac amlinelliad o'r rhaglen waith i fynd i'r afael ag atal gwastraff gan fusnesau a chartrefi. Mae hefyd yn ateb gofyniad yr Undeb Ewropeaidd i aelod-wladwriaethau ddatblygu rhaglenni atal gwastraff. Er nad oes Bwrdd Rhaglen na gwaith craffu allanol ar gynnydd, roedd y gwaith o ddatblygu'r Rhaglen yn cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd, busnesau a chydag arbenigwyr gwastraff drwy grŵp llywio.

Amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen yw y bydd cartrefi a busnesau'n gallu lleihau gwastraff, gan arbed arian, diogelu'r amgylchedd a chyfrannu tuag at Gymru gynaliadwy ar yr un pryd. I fusnesau, mae'r Rhaglen yn addo cynhyrchiant gwell drwy ddefnyddio adnoddau cynaliadwy, arloesedd er mwyn ennill mantais gystadleuol, a diogelwch rhag prisiau cynyddol ar nwyddau. Un o brif amcanion y Rhaglen yw torri'r cysylltiad rhwng cynhyrchu gwastraff a thwf economaidd.

Dywed Llywodraeth Cymru bydd y Rhaglen yn ei helpu i:

- Drechu tlodi drwy helpu i leihau gwastraff a hybu pobl i ailddefnyddio, ailwampio ac ail-weithgynhyrchu er mwyn darparu nwyddau rhad o ansawdd uchel. Yn ogystal, y dewis cyntaf naturiol ar gyfer nwyddau, dodrefn a dillad diffygiol neu ddiangen ddylai fod i'w trwsio a'u hailddefnyddio.
- Cynyddu faint o fwyd dros ben sydd ar gael i bobl ei fwyta, fel trwy barhau i ariannu mentrau Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff cenedlaethol a lleol.
- Cyflawni twf gwyrdd a swyddi cynaliadwy o ansawdd uchel drwy reoli adnoddau mewn modd cynaliadwy a chreu cyfleoedd hyfforddi i bobl ddi-waith. Annog busnesau drwy eco-arloesedd ac eco-ddylunio i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy, ac i ddefnyddio deunyddiau'n effeithlon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r sector adeiladu a dymchwel a'r sectorau busnes fel blaenoriaeth ar gyfer y Rhaglen, gan eu bod yn cynhyrchu meintiau mawr o wastraff sy'n cael effaith fawr ar yr amgylchedd. Disgwylir i'r sector cyhoeddus arwain trwy esiampl hefyd drwy ei weithrediadau a'i arferion caffael ei hun.



**Gwastraff cartref** – Mae'r Rhaglen yn ystyried camau gweithredu 'ochr y galw' dewisiadau prynu, eu defnydd yn y cartref, a'u gwaredu a chasglu. Mae'r Rhaglen yn cynnwys ymgysylltu â chwsmeriaid, adolygu cynlluniau gwobrwyo cartrefi a darparu'r gwasanaeth gorau posibl i ddeiliaid tai. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i leihau maint y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu mewn cartrefi o 1.2% bob blwyddyn, o linell sylfaen 2006-07.



**Gwastraff diwydiannol a masnachol** – Mae'r Rhaglen yn gweithio gyda manwerthwyr mawr a'u cadwynau cyflenwi i hybu eco-arloesedd yn y sector gweithgynhyrchu. Y sectorau busnes â blaenoriaeth yw gweithgynhyrchu bwyd, gwasanaethau llety a bwyd, diwydiannau a reoleiddir dan drwydded, mentrau bach a chanolig, gwasanaethau mewn swyddfeydd, a manwerthwyr bach a chyfanwerthwyr. Gwastraff masnachol yw gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan unrhyw safle sy'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer masnach, busnes, chwaraeon hamdden neu adloniant, heb gynnwys gwastraff cartref a diwydiannol. Gwastraff diwydiannol yw gwastraff o unrhyw ffatri ac o unrhyw safle a feddiannir gan ddiwydiant, ond nid yw'n cynnwys gwastraff o fwynfeydd a chwareli. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i leihau maint y gwastraff masnachol sy'n cael ei gynhyrchu o 1.2% bob blwyddyn, a gwastraff diwydiannol o 1.4% y flwyddyn, o linell sylfaen 2006-07.



**Gwastraff adeiladu a dymchwel** – Mae gwastraff adeiladu a dymchwel yn cynnwys pob gwastraff sy'n deillio o weithgareddau adeiladu, adnewyddu a dymchwel, fel rwbel, brics a theils. Mae'r Rhaglen wedi blaenoriaethu'r deunyddiau gwastraff canlynol: pren, plastig, defnydd inswleiddio a gypswm, gwastraff peryglus (pridd halogedig yn bennaf), metelau, concrit, brics, teils a cherameg a sylweddau bitwminaidd. Mae'r mentrau'n canolbwyntio ar eco-gynllunio a dylunio gwastraff, addysg a chanllawiau, peirianneg gwerth, a chynhyrchion adeiladu cynaliadwy. Mae cymorth i fentrau bach a chanolig ddatblygu seilwaith i'w cefnogi i ailddefnyddio deunyddiau dros ben er lles y gymuned a chaffael ardaloedd gwyrdd. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i leihau maint y gwastraff adeiladu a dymchwel sy'n cael ei gynhyrchu o 1.4% bob blwyddyn, o linell sylfaen 2006-07.

Yn ogystal, bydd y Rhaglen yn blaenoriaethu ailddefnyddio a thrwsio ar draws pob sector drwy gyfathrebu'n well, annog casgliadau ar wahân o wastraff offer trydanol ac electronig mewn cyfleusterau casglu dynodedig, caffael mannau gwyrdd, a hefyd yn cynorthwyo'r Rhwydwaith Ailddefnyddio i rannu storfeydd, cyfathrebu a thrwy sefydlu safonau â sicrwydd ansawdd ar gyfer cynhyrchion ailddefnyddio a thrwsio.

Mae'r Rhaglen yn eistedd ochr yn ochr â chynlluniau sector unigol (Ffigur 12) ac amrediad o bolisïau a dogfennau strategol eraill sydd, gyda'i gilydd, yn llunio'r Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer Cymru (paragraff 6 crynodeb).

Ffigur 12: 'cynlluniau sector' gwastraff Llywodraeth Cymru

| | | |
|---|---|---|
| **Cynllun sector gwastraff trefol** | Mae hwn yn ystyried y gwastraff y mae cynghorau'n ei gasglu, gan gynnwys gwastraff cartref ac ailgylchu | Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011 |
| **Cynllun sector ynghylch casgliadau, seilwaith a marchnadoedd** | Mae hwn yn ystyried yr hyn sy'n digwydd i'r gwastraff unwaith y bydd wedi ei roi allan i'w gasglu a sut mae Cymru yn ymdrin â'i gwastraff heb ei anfon i safleoedd tirlenwi | Cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012 |
| **Cynllun sector bwyd, gweithgynhyrchu, gwasanaethu a manwerthu** | Mae hwn yn ystyried gwastraff bwyd a deunydd pacio yng Nghymru a sut i'w leihau o fewn y diwydiant bwyd a gweithgynhyrchu | Cyhoeddwyd ym mis Medi 2014 |
| **Cynllun y sector adeiladu a dymchwel** | Mae hwn yn ystyried y gwastraff a gynhyrchir yn y diwydiant adeiladu a sut i reoli hwn | Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012 |
| **Cynllun y sector diwydiannol a masnachol** | Mae hwn yn ystyried gwastraff o fusnesau, manwerthu a gweithgynhyrchu a sut i leihau a rheoli hwn | Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012 |
| **Cynllun effeithlonrwydd adnoddau a gwastraff y sector cyhoeddus** | Bydd hwn yn ystyried gwastraff a gynhyrchir yn y sector cyhoeddus a sut i'w leihau a'i reoli | Dyddiad cyhoeddi a ragwelir yn ystod 2019.<br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y cynllun hwn yn ei 'Drywydd ar gyfer Cymru sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon'. |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru